Cyngor Sir Penfro

STRATEGAETH LEOL AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD

Drafft

-001
MAI 2024

CYHOEDDUS

Cyngor Sir Penfro

STRATEGAETH LEOL AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD

Drafft

MATH O DDOGFEN (FERSIWN): CYHOEDDUS

RHIF Y PROSIECT: 70115170

OUR REF. NO. -001

DYDDIAD: MAI 2024

This item is also available in English / Mae'r eitem hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Cyngor Sir Penfro

STRATEGAETH LEOL AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD

Drafft

WSP

WSP House
70 Chancery Lane
Llundain
WC2A 1AF

Phone: +44 20 7314 5000

Fax: +44 20 7314 5111

WSP.com

RHEOLI ANSAWDD

Mater/diwygiad	Rhifyn cyntaf	Diwygiad 1	Diwygiad 2	Diwygiad 3
Sylwadau	Drafft ar gyfer adolygiad Cyngor Sir Penfro			
Dyddiad	Ebrill 2024			
Paratowyd gan	BS			
Llofnod				
Gwiriwyd gan	CS			
Llofnod				
Awdurdodwyd gan				
Llofnod				
Rhif y prosiect	70115170			
Rhif yr adroddiad	0.1			
Cyfeirnod ffeil				

CYNNWYS

RHAGAIR 10

1 CYFLWYNIAD 11

1.1 YR ANGEN AM STRATEGAETH LEOL 11

1.2 PWRPAS Y STRATEGAETH LEOL HON 14

1.3 STRWYTHUR Y STRATEGAETH LEOL HON 14

1.4 TARGEDAU O FEWN Y STRATEGAETH LEOL HON – AMCANION, MESURAU A CHAMAU GWEITHREDU 15

2 CYDLYNU RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD 16

2.1 Y CYD-DESTUN DEDDFWRIAETHOL A PHOLISI 16

2.2 SUT MAE'R STRATEGAETH HON YN CYD-FYND Â'N CYNLLUNIAU STRATEGOL ERAILL 16

2.2.1 STRATEGAETH GORFFORAETHOL 2023-2028 (IONAWR 2023): 16

2.2.2 CYNLLUN LLESIANT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO 2023–2028 (MAI 2023): 16

2.2.3 STRATEGAETH LEOL AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD (CHWEFROR 2015) A'R CYNLLUN RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD (EBRILL 2017): 17

2.2.4 CYNLLUNIAU RHEOLI TRAETHLIN 17

2.2.5 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL (MABWYSIADWYD 2013) 18

2.2.6 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 2 (2017–2033, CYNLLUN ADNEUO, HEB EI FABWYSIADU AR HYN O BRYD) 19

2.2.7 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 2 PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO, DYDDIAD GORFFEN 2031 (MABWYSIADWYD MEDI 2020) 19

2.2.8 CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL (IONAWR 2015): 20

2.2.9 CYNLLUN GWEITHREDU ADFER NATUR AR GYFER SIR BENFRO (MEHEFIN 2018) 20

2.3 CYDLYNU AG ERAILL 21

2.3.1 CYFOETH NATURIOL CYMRU 21

2.3.2 DŴR CYMRU 22

3 PERYGL LLIFOGYDD 23

3.1 FFYNONELLAU LLIFOGYDD YN SIR BENFRO 23

3.2 SUT RYDYM YN ASESU PERYGL LLIFOGYDD 25

3.2.1 MAPIAU PERYGL A PHERYGLON LLIFOGYDD CENEDLAETHOL ASESIAD PERYGL LLIFOGYDD CYMRU 25

3.2.2 MAP LLIFOGYDD AR GYFER CYNLLUNIO 25

3.2.3 YMCHWILIADAU I LIFOGYDD A DIGWYDDIADAU LLIFOGYDD HANESYDDOL ADRAN 19 25

3.2.4 ASESIAD STRATEGOL O GANLYNIADAU LLIFOGYDD 26

3.2.5 YMGYNGHORI AG AWDURDODAU RHEOLI RISG ERAILL 26

3.2.6 FFINIAU ARDALOEDD CYMUNEDOL 26

3.3 TROSOLWG O BERYGL LLIFOGYDD YN EIN HARDAL 26

3.3.1 PERYGL LLIFOGYDD O'R PRIF AFONYDD 27

3.3.2 PERYGL LLIFOGYDD O GYRSIAU DŴR CYFFREDIN/BACH A DŴR WYNEB 27

3.3.3 PERYGL LLIFOGYDD O'R MÔR 28

3.3.4 PERYGL LLIFOGYDD O GARTHFFOSYDD 28

3.3.5 PERYGL LLIFOGYDD O GRONFEYDD DŴR 28

3.4 PERYGL LLIFOGYDD YN EICH CYMUNED 30

4 NEWID HINSAWDD 34

4.1 SUT MAE EIN STRATEGAETH YN MYND I'R AFAEL Â'R RISGIAU HYN 34

5 ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD 36

5.1 AWDURDODAU RHEOLI RISG A'U SWYDDOGAETHAU 36

5.1.1 YR AWDURDOD LLIFOGYDD LLEOL ARWEINIOL (CYNGOR SIR PENFRO) 37

5.1.2 CYFOETH NATURIOL CYMRU 38

5.1.3 DŴR CYMRU 38

5.1.4 LLYWODRAETH CYMRU 38

5.2 PARTNERIAID CYFRIFOL ERAILL 39

5.2.1 TIRFEDDIANWYR GLAN YR AFON 39

5.2.2 PRESWYLWYR A PHERCHNOGION EIDDO A BUSNESAU 39
5.2.3 NETWORK RAIL A THRAFNIDIAETH CYMRU 40
5.2.4 RHANDDEILIAID/PARTNERIAID ERAILL 40
5.3 SUT RYDYM YN RHEOLI LLIFOGYDD YN EIN HARDAL 41
5.3.1 ADRODDIADAU AC YMCHWILIADAU LLIFOGYDD 41
5.3.2 COFNODION A DYNODIAD ASEDAU 41
5.3.3 CYNLLUNIAU CYNNAL A CHADW A GWELLA 42
5.3.4 RHEOLI DATBLYGIAD 42
5.3.5 YMATEB I LIFOGYDD 42
5.3.6 CYDLYNU 43
6 AMCANION STRATEGOL 44
6.1 AMCANION Y STRATEGAETH GENEDLAETHOL 44
6.2 AMCANION YN EIN HARDAL 44
7 ARIANNU A BLAENORIAETHU 46
7.1 OPSIYNAU CYLLID 46
7.2 SUT RYDYM YN BLAENORIAETHU MESURAU A CHAMAU GWEITHREDU 47
8 MESURAU LLIFOGYDD 49
8.1 CYFLWYNIAD I FESURAU LLIFOGYDD 49
8.2 MESURAU PARODRWYDD 49
8.3 MESURAU ATAL 53
8.4 MESURAU DIOGELU 57
8.5 MESURAU ADFER 58
9 GWEITHREDOEDD LLIFOGYDD 59
9.1 CYFLWYNIAD I WEITHREDOEDD LLIFOGYDD 59
9.2 EIN CYNLLUN GWEITHREDU LLIFOGYDD 59
10 ASESIADAU AMGYLCHEDDOL 60

10.1 ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL 60

11 MONITRO CYNNYDD 61

11.1 SUT RYDYM YN MESUR CYNNYDD 61

11.2 PA MOR RHEOLAIDD RYDYM YN MONITRO CYNNYDD 61

TABLAU

Tabl 1-1 – Crynodeb lefel uchel o berygl llifogydd 14

Tabl 3-1 – Trosolwg o berygl llifogydd yn Sir Benfro 29

Tabl 3-2 – Trosolwg o berygl llifogydd mewn ardaloedd cymunedol 32

Tabl 5-1 – Cyfrifoldebau awdurdodau rheoli risg ledled Sir Benfro 36

Tabl 6-1 - Amcanion y Strategaeth Leol 45

FFIGURAU

Ffigur 1-1 Trosolwg o ardal y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd 13

Ffigur 3-1 – Ffynonellau perygl llifogydd 24

Ffigur 3-2 Ardaloedd cymunedol 31

Ffigur 6-1 - Amcanion y Strategaeth Genedlaethol 44

ATODIADAU

ATODIAD A

PERYGL LLIFOGYDD LLEOL

ATODIAD B

CYD-DESTUN DEDDFWRIAETHOL

ATODIAD C

CYNLLUN GWEITHREDU

ATODIAD D

Paratoi ar gyfer llifogydd a beth i'w wneud os yw eich cartref neu fusnes wedi dioddef llifogydd

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau ar beth i'w wneud cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd.

Gyda phwy i gysylltu am ragor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth, ewch i'r wefan ganlynol: https://www.sir-benfro.gov.uk/cynllunio-argyfwng/llifogydd

Neu cysylltwch â'r canlynol:

- Cyfeiriad e-bost: ymholiadau@sir-benfro.gov.uk / emplun@pembrokeshire.gov.uk
- Rhif ffôn: 01437 764551 / 0345 6015522

1 CYFLWYNIAD

1.1 YR ANGEN AM STRATEGAETH LEOL

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o'r 22 Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yng Nghymru gynhyrchu Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd (Strategaeth Leol).

Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (y Strategaeth Genedlaethol) yn nodi bod dros 245,000 o eiddo ledled Cymru mewn perygl o lifogydd o afonydd, y môr a dŵr wyneb, gyda bron i 400 eiddo hefyd mewn perygl oherwydd erydu arfordirol. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn egluro, wrth i'r hinsawdd newid, y gallwn ddisgwyl i'r risgiau hynny gynyddu, gyda llifogydd amlach a mwy difrifol, lefelau'r môr yn codi, a chyfraddau cyflymach o erydu'r arfordir.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi'r cyd-destun deddfwriaethol ar gyfer gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Mewn rhai achosion, mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu cynlluniau rheoli perygl llifogydd, o dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009. Darperir crynodeb o gyd-destun deddfwriaethol gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru yn Atodiad B – Y Cyd-destun Deddfwriaethol.

Mae gwahanol awdurdodau rheoli risg yng Nghymru yn gyfrifol am wahanol ffynonellau perygl llifogydd. Mae Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn gyfrifol am "berygl llifogydd lleol", a ddiffinnir fel perygl llifogydd o'r ffynonellau canlynol:

- Dŵr ffo ar yr arwyneb
- Dŵr daear
- Cyrsiau dŵr cyffredin (cyrsiau dŵr llai yn gyffredinol)

Mae'r Strategaeth Leol hon yn canolbwyntio ar y ffynonellau lleol hyn o berygl llifogydd ond yn cydnabod ac yn ystyried ffynonellau eraill o berygl llifogydd (gan gynnwys y môr, cyrsiau dŵr mwy a charthffosydd) a'u hawdurdodau rheoli risg cysylltiedig.

Diffinnir y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd gan ffin weinyddol Cyngor Sir Penfro, a ddangosir yn Ffigur 1-1.

Mae gan Sir Benfro arwynebedd tir o 1,618km^2 gyda hyd helaeth o arfordir, y mae'r mwyafrif ohono (420km) o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae rhai porthladdoedd Sir Benfro, sef Abergwaun, Aberdaugleddau a Doc Penfro, yn asedau rhyngwladol hanfodol ar gyfer sicrwydd ynni yn y DU. Mae gan Sir Benfro economi dwristiaeth lewyrchus, gyda thua £585 miliwn yn cael ei wario gan ymwelwyr y flwyddyn, sy'n golygu poblogaeth dros dro fawr yn ystod y tymhorau gwyliau brig.

Mae dau brif ddalgylch afon yn gyfan gwbl o fewn y sir, sef dalgylchoedd afon Cleddau Ddu ac afon Cleddau Wen. Mae blaenddyfroedd afon Taf o fewn Sir Benfro ac mae afon Rhydeg ac afon Gwaun yn afonydd nodedig eraill sydd wedi'u dynodi'n brif afonydd. Mae Sir Benfro yn ffinio â Sir Gaerfyrddin i'r dwyrain a Cheredigion i'r gogledd-ddwyrain. Pwynt uchaf y sir yw Mynyddoedd y Preseli yng ngogledd-orllewin y sir, 536 metr uwchlaw lefel y môr. Y bryniau hyn yw blaenddyfroedd afon Cleddau Ddu ac afon Cleddau Wen, yn ogystal ag afon Gwaun ac afon Nanhyfer. Mae gweddill y sir ar uchder, gyda thirwedd donnog.

Oherwydd dwysedd cymharol isel y boblogaeth, mae perygl llifogydd yn Sir Benfro yn gyffredinol isel. Fodd bynnag, mae'r sir mewn perygl o lifogydd o afonydd a dŵr wyneb yn ogystal â llifogydd ac erydu arfordirol, a'r risg o gyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb yw'r ffynhonnell risg uchaf i eiddo preswyl.



Allwedd:	
	Ffin Cyngor Sir Penfro
Cyrsiau dŵr	
	Prif afon Cyfoeth Naturiol Cymru
	Cwrs dŵr cyffredin

Manylion y lluniad		
Dyddiad	Mawrth 2024	
Diwygiad	001	
Statws	Drafft	
Lleoliad	Cyngor Sir Penfro	
Lluniwyd gan BS	Gwiriwyd gan CS	Cymeradwywyd gan JG

Yn cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata (2024). Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl (2024).

STRATEGAETH LEOL AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD SIR BENFRO

Ffigur 1-1 Trosolwg o ardal y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd

Tabl 1-1 yn dangos crynodeb lefel uchel o'r ardal sydd mewn perygl yn y sir ac mae Pennod 3 yn rhoi crynodeb manylach o berygl llifogydd.

Tabl 1-1 – Crynodeb lefel uchel o berygl llifogydd

Lefel y risg	Uchel		Canolig		Isel	
Ffynhonnell y llifogydd	Yr arwynebedd mewn perygl (km²)	Eiddo preswyl mewn perygl (nifer)	Yr arwynebedd mewn perygl (km²)	Eiddo preswyl mewn perygl (nifer)	Yr arwynebedd mewn perygl (km²)	Eiddo preswyl mewn perygl (nifer)
Arfordirol	8.8	60	9.7	113	12.0	198
Prif afonydd	29.9	114	33.6	159	40.7	365
Dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach	15.2	367	18.9	538	27.4	1,448

1.2 PWRPAS Y STRATEGAETH LEOL HON

Fe wnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Leol gyntaf yn 2015, gan nodi ein dull trosfwaol o reoli perygl llifogydd lleol. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi ein Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn 2017. Datblygodd ein Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yr amcanion a'r camau gweithredu lefel uchel a amlinellwyd yn ein Strategaeth Leol yn gynllun manylach ar gyfer rheoli llifogydd yn ein cymunedau.

Y ddogfen hon yw ein hail Strategaeth Leol. Er i ni gyhoeddi ein Strategaeth Leol a'n Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd ar wahân yn flaenorol, mae'r Strategaeth Leol newydd hon yn integreiddio'r ddwy ddogfen yn un. Mae hyn yn lleihau cymhlethdod ac yn ein galluogi i gyfathrebu a rheoli perygl llifogydd lleol yn fwy effeithiol.

Yn y ddogfen hon, rydym yn esbonio sut y bydd llifogydd yn cael eu rheoli ar draws ardal ein hawdurdod leol, yn gyson â'r amcanion, y mesurau, a'r polisïau a deddfwriaeth gysylltiedig a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol. Bydd y strategaeth hon a gyhoeddwyd yn 2024 yn cael ei hadolygu ymhen chwe blynedd, ond bydd y cynllun gweithredu (Pennod 9 ac Atodiad C) yn cael ei adolygu bob dwy flynedd.

1.3 STRWYTHUR Y STRATEGAETH LEOL HON

Mae'r ddogfen hon wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn crynhoi sut mae'r Strategaeth Leol hon yn cyd-fynd â'n cynlluniau strategol eraill – er enghraifft, ein Cynllun Datblygu Lleol a'n Cynllun(iau) Rheoli Traethlin. Mae hefyd yn crynhoi sut rydym wedi datblygu'r Strategaeth Leol ar y cyd â chynlluniau rhanddeiliaid eraill, megis Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff sydd ar ddod gan Dŵr Cymru.
- Mae Pennod 3 yn cyflwyno asesiad o berygl llifogydd ar draws ein hawdurdod leol.
- Mae Pennod 4 yn rhoi trosolwg o'r perygl llifogydd a berir gan newid hinsawdd yn ein hardal a sut mae'r Strategaeth Leol hon yn ceisio mynd i'r afael â'r risgiau hyn.

- Mae Pennod 5 yn nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn ein hardal. Mae hefyd yn amlygu rhai o'r polisïau allweddol sydd gennym ar waith ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol.
- Mae Pennod 6 yn crynhoi'r gwahanol ffyrdd y gellir ariannu gweithgareddau rheoli perygl llifogydd, yn ogystal â sut rydym yn blaenoriaethu'r gweithgareddau hyn.
- Mae Pennod 7 yn disgrifio ein hamcanion neu ein huchelgeisiau strategol ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn y blynyddoedd i ddod, a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â'r amcanion a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol.
- Mae Pennod 8 yn nodi ein mesurau ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Mae'r rhain yn weithgareddau eang ac yn ffyrdd o weithio sy'n ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol.
- Mae Pennod 9 yn nodi ein cynllun gweithredu ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Mae hwn yn gynllun â ffocws sy'n manylu ar gamau gweithredu penodol sydd eu hangen i gyflawni ein mesurau.
- Mae Pennod 10 yn nodi'r asesiadau amgylcheddol a gynhaliwyd i gyd-fynd â'r strategaeth hon.
- Mae Pennod 11 yn disgrifio sut y byddwn yn mesur ac yn monitro ein cynnydd wrth gyflawni'r amcanion, mesurau a chamau gweithredu a nodir yn y Strategaeth Leol hon.

1.4 TARGEDAU O FEWN Y STRATEGAETH LEOL HON – AMCANION, MESURAU A CHAMAU GWEITHREDU

Mae'r Strategaeth Leol hon yn nodi ein hamcanion, mesurau a chamau gweithredu ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Mae'r tri grŵp hyn yn darparu gwahanol lefelau o fanylion ar sut y bydd perygl llifogydd yn cael ei reoli. Crynhoir ystyr pob un isod:

Amcanion

- Targedau neu ganlyniadau trosfwaol rheoli perygl llifogydd yn ystod cylch y Strategaeth Leol neu y tu hwnt iddo.
- Datganiadau o uchelgais yr awdurdod lleol ar gyfer rheoli perygl llifogydd.
- Yn benodol i'r awdurdod lleol ond yn gysylltiedig ag amcanion y Strategaeth Genedlaethol.

Mesurau

- Gweithgareddau eang a ffyrdd o weithio i fodloni'r amcanion.
- Yn nodweddiadol yn berthnasol i ardal yr awdurdod lleol yn hytrach na chymunedau/lleoliadau penodol oddi mewn iddi.
- Yn gyfyngedig o ran amser ac yn fesuradwy ar lefel uchel, gyda chostau a buddion dangosol.

Camau gweithredu

- Tasgau, gweithgareddau neu fentrau penodol, wedi'u cynllunio a'u holrhain, i gyflawni'r mesurau.
- Wedi'u hadolygu'n flynyddol, pan fydd cynnydd yn cael ei adrodd, a'u diweddaru bob dwy flynedd.
- Tymor byr, canolig a hir gydag allbynnau/deilliannau wedi'u diffinio'n glir.
- Yn nodweddiadol ar gyfer lleoliad penodol o fewn ardal yr awdurdod lleol.

2 CYDLYNU RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD

2.1 Y CYD-DESTUN DEDDFWRIAETHOL A PHOLISI

Mae yna nifer o ddeddfwriaethau a pholisïau Ewropeaidd, cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y gwaith o reoli llifogydd a dŵr yn Sir Benfro ac yn ei lywio. Manylir ar y ddeddfwriaeth a pholisïau allweddol sydd wedi llywio'r gwaith o gynhyrchu'r strategaeth hon yn Atodiad B.

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn nodi'r gofyniad am strategaeth leol a ddylai fod yn gyson â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a baratowyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae yna hefyd strategaethau a chynlluniau lleol amrywiol sy'n berthnasol i'r Strategaeth Leol hon, fel y trafodwyd yn adran 2.2.

2.2 SUT MAE'R STRATEGAETH HON YN CYD-FYND Â'N CYNLLUNIAU STRATEGOL ERAILL

Mae'r Strategaeth Leol hon yn un o gyfres o strategaethau a chynlluniau a baratowyd gan y cyngor. Mae'r dogfennau lleol allweddol sydd wedi llywio'r gwaith o baratoi'r strategaeth hon fel a ganlyn:

2.2.1 STRATEGAETH GORFFORAETHOL 2023-2028 (IONAWR 2023):

Y cynllun corfforaethol yw cynllun busnes y cyngor sy'n nodi'r weledigaeth, yr amcanion a'r mesurau hyd at 2028. Y weledigaeth yw 'gweithio gyda'n gilydd, gwella bywydau' gydag amcan penodol (A5) – 'hyrwyddo a chefnogi mentrau i gyflawni datgarboneiddio, rheoli addasu i'r hinsawdd, a mynd i'r afael â'r argyfwng natur'. Mae'r cyngor yn bwriadu gwneud hyn drwy hyrwyddo pwysigrwydd cynaliadwyedd amgylcheddol, gan ennill calonnau a meddyliau fel bod pawb yn y cymunedau yn cael eu hysbrydoli i wneud eu rhan.

2.2.2 CYNLLUN LLESIANT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO 2023–2028 (MAI 2023):

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro ym mis Ebrill 2016 a'i dasg yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Benfro drwy gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant drwy gyflwyno cynllun llesiant. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys uwch-gynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

- Cyngor Sir Penfro
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
- Coleg Sir Benfro
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Porthladd Aberdaugleddau
- Heddlu Dyfed–Powys
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- PLANED

- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed–Powys
- Llywodraeth Cymru

Ei weledigaeth yw: *"datgloi pŵer a photensial pobl a chymunedau Sir Benfro fel eu bod yn hapus, yn iach ac yn byw'n dda, bod ein cymunedau'n garedig, yn ddiogel, yn ddyfeisgar ac yn fywiog, a bod ein heconomi yn wyrdd ac yn ffynnu, a'n hamgylchedd yn cael ei warchod a'i wella"*.

Un o'r pedwar prif amcan yw: *"Hyrwyddo a chefnogi mentrau er mwyn datgarboneiddio, rheoli'r broses o addasu i'r newid yn yr hinsawdd, a mynd i'r afael â'r argyfwng natur"*.

2.2.3 STRATEGAETH LEOL AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD (CHWEFROR 2015) A'R CYNLLUN RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD (EBRILL 2017):

Mae'r Strategaeth Leol hon a'r cynllun gweithredu yn adeiladu ar y strategaeth a chynllun rheoli blaenorol a gyhoeddwyd yn 2015 a 2017. Mae'r strategaeth wedi'i diweddaru i adlewyrchu gwybodaeth newydd, gan gynnwys alinio â'r strategaeth genedlaethol gyfredol a diweddaru amcanion a mesurau ar gyfer y cyngor sir i sicrhau perthnasedd presennol ac yn y dyfodol wrth reoli perygl llifogydd.

2.2.4 CYNLLUNIAU RHEOLI TRAETHLIN

Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn nodi dull strategol o reoli llifogydd arfordirol ac erydu arfordirol yn y tymor byr (2005–2025), y tymor canolig (2025–2055) a'r hirdymor (2055–2105). Mae'r cynlluniau'n ystyried prosesau arfordirol, cyflwr amddiffynfeydd ac effaith newid hinsawdd yn ogystal â ffactorau cymdeithasol ac economaidd. Nid ydynt yn ddogfennau statudol, ond mae Llywodraeth Cymru yn argymell eu bod yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau lleol a chynllunio strategol.

Mae dau Gynllun Rheoli Traethlin sy'n berthnasol i Sir Benfro: Grŵp Arfordirol De Cymru (Trwyn Larnog i Benrhyn y Santes Anne) a Grŵp Arfordirol Gorllewin Cymru (Penrhyn y Santes Ann i'r Gogarth). Mae pob Cynllun Rheoli Traethlin yn rhannu'r morlin yn unedau polisi ac yn cymhwyso un o bedwar dull:

- Cynnal y Llinell
- Symud y Llinell (dull nas cymhwysir yng Nghymru)
- Adlinio a Reolir
- Dim Ymyrraeth Weithredol

Gall y dull o reoli traethlin newid dros amser mewn rhai lleoliadau, lle nad yw'n ymarferol nac yn gynaliadwy amddiffyn darn o arfordir yn y tymor hwy, felly gellir defnyddio dulliau gwahanol dros y cyfnodau amser gwahanol.

Yn Sir Benfro, y prif ddull gweithredu yw Dim Ymyrraeth Weithredol gan nad oes llawer o ddatblygiadau ar hyd yr arfordir ac felly bydd yn cael ei adael i brosesau naturiol weithredu arno. Mae lleoliadau allweddol fel Dinbych-y-pysgod, Aberdaugleddau, Neyland, Doc Penfro, Abergwaun ac Wdig wedi'u nodi fel lleoliadau ar gyfer 'Cynnal y Llinell' yn y tymor hir a bydd amddiffynfeydd yn cael eu cynnal a'u huwchraddio i sicrhau nad yw'r arfordir yn cilio. Mae lleoliadau fel Niwgwl a Dale wedi'u nodi fel lleoliadau sy'n cael eu rheoli drwy 'Adlinio a Reolir', lle mae symudiad y traethlin yn ôl neu ymlaen yn cael ei reoli neu ei gyfyngu.

2.2.5 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL (MABWYSIADWYD 2013)

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae gan y cynllun mabwysiedig presennol y polisïau canlynol sy'n ymwneud â'r Cynllun Lleol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd.

GN.1 Polisi Datblygu Cyffredinol: Caniateir datblygiad lle bodlonir y meini prawf canlynol: 7. Ni fyddai'n achosi nac yn arwain at niwed annerbyniol i iechyd a diogelwch:

- 6.8 Lle mae pryderon y byddai cynnig yn achosi niwed i iechyd a diogelwch trwy halogiad, effaith andwyol ar ansawdd aer, ansadrwydd tir, llifogydd neu erydu, gofynnir am gyngor proffesiynol gan yr awdurdod perthnasol. Pan fo pryderon o'r fath yn ymwneud â llifogydd afonol neu arfordirol a/neu erydiad, bydd darpariaethau'r Cynllun Rheoli Traethlin perthnasol a/neu'r Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch yn llywio ystyriaeth o'r materion iechyd a diogelwch. Mewn rhai achosion, gall problemau a ragwelir ar y safle neu oddi ar y safle wneud datblygiad yn amhriodol; mewn achosion eraill, efallai y bydd datblygiad yn bosibl os oes mesurau lliniaru ar gael i wneud y cynnig yn wydn i'r problemau a nodwyd. Nid oes unrhyw ddyraniadau tai wedi'u nodi o fewn parthau llifogydd C1 neu C2 yn y cynllun. Mae nifer fach o ddyraniadau eraill o fewn parthau llifogydd C1 neu C2. Lle mae dyraniadau mewn perygl o lifogydd afonol neu ddŵr wyneb, mae hyn wedi'i nodi yn y canllawiau cynllunio atodol ar gyfer safleoedd datblygu, gyda gofynion yn sefydlu lefel yr wybodaeth i'w darparu ar y cam ymgeisio.

GN.2 Dylunio Cynaliadwy: Caniateir datblygiad lle bodlonir meini prawf perthnasol: 3. Mae'n ymgorffori dyluniad sy'n effeithlon o ran adnoddau ac sy'n ymateb i'r hinsawdd trwy leoliad, cyfeiriadedd, dwysedd, gosodiad, defnydd tir, defnyddiau, cadwraeth dŵr, a'r defnydd o systemau draenio a datrysiadau rheoli gwastraff cynaliadwy:

- 6.15 Mae newid hinsawdd yn her amgylcheddol hirdymor allweddol ac mae'r angen i leihau allyriadau a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon yn hanfodol. Disgwylir i ddatblygiadau newydd gydymffurfio â safonau adeiladu cynaliadwy cenedlaethol cydnabyddedig y Cod Cartrefi Cynaliadwy a/neu Ddull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM). Mae'r rhain wedi'u nodi o fewn polisi cynllunio cenedlaethol 71. Bydd yn ofynnol i ddatblygwyr fynd i'r afael â dylunio sy'n effeithlon o ran ynni ac sy'n ymateb i'r hinsawdd yn gynnar yn y broses ddylunio trwy ddwysedd a phatrymau datblygu cynaliadwy ac ymgorffori dyluniadau adeiladu cynaliadwy. Dylid ystyried lleoliad, gosodiad, cyfeiriadedd, dwysedd, defnydd tir, defnyddiau, technegau adeiladu, tirlunio, cadwraeth dŵr, a'r defnydd o systemau draenio a datrysiadau rheoli gwastraff cynaliadwy. Disgwylir i gynigion datblygu newydd ymgorffori systemau draenio cynaliadwy a, lle bo'n briodol, y defnydd o ddefnyddiau adeiladu wedi'u hailgylchu, gan gynnwys agregau eilaidd.

GN.3 Seilwaith a Datblygiadau Newydd:

Lle mae datblygiad yn creu angen uniongyrchol gysylltiedig ar gyfer seilwaith, gwasanaethau neu gyfleusterau cymunedol newydd neu well ac nad yw hyn eisoes wedi'i raglennu gan wasanaeth neu gwmni seilwaith, yna mae'n rhaid i hyn gael ei ariannu gan y datblygiad.

- 6.21 Mae datblygiadau newydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar seilwaith a gwasanaethau ac felly bydd disgwyl iddynt gyfrannu at seilwaith cymdeithasol, diwylliannol a ffisegol. Mae darparu cyfleusterau digonol ac effeithlon, gan gynnwys cyfleustodau megis cyflenwad dŵr, draeniau dŵr budr a dŵr wyneb, rheoli gwastraff, cynhyrchu a dosbarthu pŵer, telathrebu, trafnidiaeth

gyhoeddus, mannau agored a chyfleusterau cymunedol, yn sail i gyflawni datblygu cynaliadwy yn ardal y cynllun.

- 6.22 Mae hefyd yn bwysig bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer lliniaru effeithiau andwyol posibl datblygiadau newydd ar fioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol. Gallai effeithiau andwyol gynnwys, er enghraifft, fwy o erydiad, pwysau ar gynefinoedd a rhywogaethau, newidiadau yng nghymeriad y dirwedd, llai o dreftadaeth ddiwylliannol neu fywiogrwydd ieithyddol, ymwthiad sŵn, ansawdd aer gwaeth, a thagfeydd traffig.
- 6.23 Lle bo angen, bydd yn ofynnol i ddatblygiadau gyfrannu at seilwaith, gwelliannau i'r dirwedd a mesurau lliniaru, drwy rwymedigaethau cynllunio74, ymgymeriad unochrog neu ardoll seilwaith cymunedol75 fel y bo'n briodol. Mae'r cyngor ar hyn o bryd yn asesu ei sefyllfa o ran yr ardoll seilwaith cymunedol a bydd yn ystyried a ddylid cyflwyno rhestr codi tâl ar gyfer prosiectau mwy. Byddai rhestr o'r fath yn gweithredu ochr yn ochr â'r defnydd parhaus o rwymedigaethau cynllunio ar gyfer seilwaith ar raddfa fach ac i sicrhau y darperir tai fforddiadwy. Gallai gofynion cyfraniadau gynnwys tai fforddiadwy, trafnidiaeth, seilwaith ffisegol, cynlluniau lliniaru llifogydd, systemau draenio cynaliadwy76, cynlluniau ynni, darpariaeth addysg, llyfrgelloedd, diogelwch cymunedol, creu neu wella'r rhwydwaith hamdden, cyfleusterau cymunedol, a chadwraeth bioamrywiaeth/natur.

2.2.6 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 2 (2017–2033, CYNLLUN ADNEUO, HEB EI FABWYSIADU AR HYN O BRYD)

Mae Cynllun Adneuo (CDLl 2) Cyngor Sir Penfro yn cael ei ailysgrifennu ar hyn o bryd oherwydd canllawiau newydd a rhai wedi'u diweddaru a materion eraill sydd wedi bod ers 2020. Fel y cyfryw, ni fydd y Cynllun Adneuo cyhoeddedig cyfredol ar gyfer CDLl 2 yn cael ei ddatblygu. Fodd bynnag, bydd CDLl 2 yn cadw polisïau sylweddol ar lifogydd a newid arfordirol a fydd yn dod yn berthnasol i'r strategaeth hon ar ôl mabwysiadu'r cynllun. Rhagwelir y bydd y Cynllun Adneuo newydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad yn hydref 2024.

2.2.7 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 2 PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO, DYDDIAD GORFFEN 2031 (MABWYSIADWYD MEDI 2020)

Fel awdurdod cynllunio ar wahân, mae gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei Gynllun Datblygu Lleol ei hun, a gafodd ei ddiweddaru yn 2020.

Mae gan y cynllun diweddaraf yr amcanion canlynol sy'n cysylltu â'r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd:

Amcanion

C. Newid hinsawdd, dylunio cynaliadwy, ynni adnewyddadwy, llifogydd

- Llygredd, Tir Ansefydlog a Halogiad
  - Lleihau creu ffynonellau newydd o lygredd a halogiad a mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ansadrwydd tir o fewn y Parc Cenedlaethol(Polisi 8 a Pholisi 9).
- Dylunio Cynaliadwy
  - Mae dyluniad pob datblygiad yn y Parc Cenedlaethol yn adlewyrchu ei rinweddau tirwedd a threflun arbennig a hynodrwydd lleol, yn bodloni'r safonau uchaf ar gyfer defnyddio adnoddau, gan gynnwys lleihau gwastraff, ac yn ystyried effaith hinsawdd sy'n newid (Polisi 9, Polisi 29, Polisi 30, Polisi 31 a Pholisi 32).

- Rheolaeth Arfordirol
  - Osgoi datblygu darnau o’r arfordir sydd heb eu datblygu mewn perygl o lifogydd a/neu erydu a chaniatáu ar gyfer unrhyw addasiadau angenrheidiol drwy gymryd i ystyriaeth effeithiau newid hinsawdd hysbys ac a ragwelir ar yr arfordir (Polisi 8, Polisi 17, Polisi 18, Polisi 33, Polisi 34, Polisi 35, Polisi 36 a Pholisi 37).
- Llifogydd
  - Sicrhau nad yw datblygiadau agored i niwed yn digwydd mewn lleoliadau lle gallent fod mewn perygl o lifogydd neu lle byddai’n cynyddu’r perygl o lifogydd mewn lleoliad arall (Polisi 34).

Canlyniadau allweddol y Cynllun Datblygu Lleol sy’n ymwneud â’r Strategaeth Leol yw:

- (6) Datblygiadau’n cyrraedd safonau uchel o ran dylunio cynaliadwy gyda phob annedd newydd yn cyrraedd y safonau a nodir yn y polisi cynllunio cenedlaethol.
- (8) Dim datblygiadau agored iawn i niwed mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ar hyn o bryd ac yn y tymor hir a dim effeithiau negyddol mewn mannau eraill.

Mae polisïau perthnasol y cynllun yn cynnwys:

Polisi 32: Draenio Dŵr Wyneb

- Bydd angen i ddatblygiadau ymgorffori systemau draenio cynaliadwy ar gyfer gwaredu dŵr wyneb ar y safle.

Polisi 34: Llifogydd a Gorlif Arfordirol (Polisi Strategaeth): Wrth gynllunio ar gyfer datblygiadau yn y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol:

- a) bydd datblygu’n cael ei gyfeirio i ffwrdd o’r ardaloedd hynny sydd mewn perygl o lifogydd nawr neu fel y rhagfynegwyd ar gyfer y dyfodol gan Fapiau Cyngor Datblygu TAN15 neu Gynllun Rheoli Traethlin 2 oni bai fod cyfiawnhad cymdeithasol neu economaidd cadarn yn unol â’r cyngor a nodir yn Nodyn Technegol Cyngor 15 (gweler Polisi 35, Polisi 36 a Pholisi 37)
- b) bydd amddiffyn yr arfordir yn gynaliadwy yn cael ei ganiatáu lle gellir dangos bod y gwaith yn gyson â'r dull rheoli ar gyfer y lan a gyflwynir yn y Cynllun Rheoli Traethlin perthnasol ac na fydd unrhyw effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd.

2.2.8 CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL (IONAWR 2015):

Y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yw'r ffactor sy'n ysgogi ymdrech barhaus a chynyddol i warchod, gwella a rheoli ffynonellau bioamrywiaeth yn Sir Benfro. Mae'n nodi'r amcanion, targedau a chamau gweithredu ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth yn Sir Benfro.

2.2.9 CYNLLUN GWEITHREDU ADFER NATUR AR GYFER SIR BENFRO (MEHEFIN 2018)

Mae Strategaeth Sir Benfro ar gyfer Adfer Natur yn amlygu’r pwysau allweddol ar fyd natur o fewn y sir ac yn awgrymu themâu gweithredu i fynd i’r afael â nhw.

Mae Amcan 3 yn ymwneud â’r Strategaeth Leol: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd diraddiedig a chreu cynefinoedd. Gwneir hyn, er enghraifft, trwy ddefnyddio

gosodiadau peirianneg meddal a rheoli llifogydd yn naturiol i adfer prosesau afon naturiol i leihau perygl llifogydd gyda buddion amgylcheddol ehangach.

2.3 CYDLYNU AG ERAILL

Mae Cyngor Sir Penfro wedi ymrwymo i weithio gydag awdurdodau rheoli risg eraill, rhanddeiliaid lleol a grwpiau gweithredu i gyflawni'r amcanion, mesurau a chamau gweithredu ar gyfer perygl llifogydd yn y Strategaeth Leol hon.

Mae rheoli perygl llifogydd yn Sir Benfro yn cael ei ddatblygu trwy ddull seiliedig ar ddalgylch sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Genedlaethol i wella gwytnwch amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae'r dull hwn sy'n seiliedig ar ddalgylch yn cefnogi ymyriadau fel rheoli llifogydd yn naturiol sydd â buddion ehangach.

Mae'r Strategaeth Leol wedi'i datblygu mewn ymgynghoriad â'r awdurdodau rheoli risg a sefydliadau eraill, gan gyfeirio at eu cynlluniau strategol fel yr amlinellir isod. Ceir rhagor o wybodaeth am rolau a chyfrifoldebau'r awdurdodau rheoli risg yn adran 5.1.

Bydd Sir Benfro yn parhau i gydlynu gwaith gyda'r awdurdodau rheoli risg eraill i gyflawni ei strategaeth, gan weithio mewn partneriaeth lle bo modd.

Mae Sir Benfro hefyd wedi cynnal gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn y gymuned leol wrth ddatblygu'r strategaeth leol hon. Trafodir y manylion yn Atodiad D.

2.3.1 CYFOETH NATURIOL CYMRU

- Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd 2023 i 2029

O dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009 (sydd bellach wedi'u dirymu o dan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir), roedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd i nodi ardaloedd mewn perygl sylweddol o lifogydd drwy Asesiad Rhagarweiniol o Berygl Llifogydd a llunio Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn amlinellu ei amcanion a'i fesurau ar gyfer rheoli perygl llifogydd dros y chwe blynedd nesaf. Mae'r cynllun yn ymdrin â llifogydd o afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr. Mae'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn amlinellu'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu a gynigir i reoli'r perygl o lifogydd ar lefel genedlaethol a lleol. Mae Sir Benfro yn dod o dan ranbarth De-orllewin Cymru. Nid oes unrhyw gymunedau yn Sir Benfro wedi'u nodi fel ardaloedd perygl llifogydd penodol, ond mae Dinbych-y-pysgod wedi'i nodi fel cymuned ychwanegol mewn perygl o lifogydd lle mae camau gweithredu wedi'u cynllunio yn y blynyddoedd i ddod i helpu i reoli a lleihau'r perygl o lifogydd.

- Cynllun Rheoli Basnau Afonydd Gorllewin Cymru 2021 i 2027

Mae Cynllun Rheoli Basnau Afonydd Gorllewin Cymru yn un o ofynion Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2000 ac fe'i lluniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Prif ffocws y cynllun yw diogelu, gwella a gwneud defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd dŵr. Lleolir Sir Benfro yn rhan dde-orllewinol ardal y Cynllun Rheoli Basnau Afonydd. Yn ystod Cylch 3 (2021), mae'r dosbarthiadau cyrff dŵr ar gyfer y rhan fwyaf o'r sir yn gymedrol. Mae tri dalgylch wedi'u nodi'n wael (Nyfer, Wern a Nant Millin) gyda physgod wedi'u rhestru fel y prif ffactor ar gyfer y dosbarthiadau gwael hyn.

Mae mwyafrif y dosbarthiadau dŵr ymdrochi ar gyfer Sir Benfro wedi'u dosbarthu'n rhagorol yn nata Cylch 3 y Cynllun Rheoli Basnau Afonydd gyda Gogledd Dinbych-y-pysgod a Nolton Haven wedi'u dosbarthu'n dda.

Mae Sir Benfro yn cynnwys dau o'r chwe dalgylch cyfle â blaenoriaeth a nodir yn y Cynllun Rheoli Basnau Afonydd: afon Cleddau a Dyfrffordd Aberdaugleddau, sy'n cynnwys llawer o'r sir, ac afon Teifi (sy'n croesi'r ffin â Cheredigion). Y materion blaenoriaethol ar gyfer ansawdd dŵr yn nalgylch afon Cleddau a Dyfrffordd Aberdaugleddau yw mynd i'r afael â llygredd nitrad, ffosfforws a gwaddod o ffynonellau tarddle penodol a gwasgaredig, addasiadau ffisegol i sianeli a glannau afonydd (gan gynnwys adlinio sianeli hanesyddol, adeileddau yn y sianel, datgysylltu'r gorlifdir, rhwystrau i lwybrau pysgod, a chael gwared/amharu ar gynefinoedd naturiol), pori, sathru a thrin y tir i ymyl y lan (colli bywyd gwyllt afonol), a phresenoldeb eang rhywogaethau goresgynnol. Ar gyfer afon Teifi, y materion yw asideiddio, effaith mwyngloddio metel hanesyddol, llygredd gwledig gwasgaredig o amaethyddiaeth a choedwigaeth, llygredd tarddle penodol o arllwysiadau carthion o weithfeydd trin dŵr gwastraff, asedau ysbeidiol mewn ardaloedd nad ydynt o fewn prif ardaloedd carthffosiaeth, addasiadau ffisegol, a rhywogaethau estron goresgynnol. Hefyd, mae'r blaenoriaethau'n cynnwys cymunedau sydd mewn perygl o lifogydd, galwadau tynnu dŵr oherwydd y defnydd cynyddol o ddŵr, pwysau gan y newid yn yr hinsawdd, a mabwysiadu dull integredig o reoli perygl llifogydd afonol ac arfordirol.

2.3.2 DŴR CYMRU

- Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr

O dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr gynhyrchu a chynnal Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr bob pum mlynedd a'i adolygu'n flynyddol. Mae Dŵr Cymru yn y broses o ddiweddaru ei Gynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ac mae wedi cyhoeddi fersiwn ddrafft ar-lein (dWRMP24). Amcan trosfwaol y cynllun yw sicrhau bod cyflenwad dŵr cyhoeddus yn cael ei ddiogelu. Prif amcan Dŵr Cymru ar gyfer y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr wedi'i ddiweddaru yw sicrhau y bydd bob amser yn gallu darparu cyflenwad dŵr digonol i fodloni gofynion cwsmeriaid dros y 25 mlynedd nesaf trwy wneud systemau cyflenwi yn wydn i sychder yn wyneb newid yn yr hinsawdd ac ymwreiddio rheoli dŵr yn gynaliadwy.

- Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr

Rhaid i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth gynhyrchu Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr sy'n darparu sail ar gyfer cynllunio hirdymor ac sy'n edrych ar gapasiti, pwysau a risgiau i'r rhwydweithiau nawr ac yn y dyfodol, gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd a phoblogaeth sy'n newid. Er mwyn cyflawni Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr llwyddiannus, mae cydweithio â rhanddeiliaid allweddol yn hanfodol, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol. Yn 2025 a 2050, y perygl o lifogydd oherwydd rhwystrau a charthffosydd yn cwympo yw'r pryder mwyaf yn ardal gynllunio strategol afon Cleddau Wen a Sir Benfro. Mae'r strategaeth yn edrych ar atebion i liniaru llifogydd a chostau'r atebion hynny yn awr ac yn y dyfodol, gan ymgorffori draenio cynaliadwy lle bo modd.

3 PERYGL LLIFOGYDD

Mae llifogydd yn parhau i fod yn fygythiad allweddol i gymunedau ledled Cymru gyda'r potensial i achosi niwed i iechyd dynol, yr amgylchedd a gweithgarwch economaidd. Gallant gael eu hachosi gan nifer o ffactorau yn dibynnu ar ffynhonnell y llifogydd ond, yn aml, maent yn digwydd yn ystod, neu yn yr oriau yn dilyn, glawiad hir a thrwm.

Yn ystod gaeaf gwlyb iawn 2023/24, yn enwedig yn ystod Storm Ciaran (Tachwedd 2023) a Storm Henk (Ionawr 2024), arweiniodd glawiad dwys a chyson a lefelau llanw uchel a oedd yn cyfyngu ar ollyngfa'r llanw lefelau uchel iawn yn afon Rhydeg yn Ninbych-y-pysgod. Fel y cyfryw, cyhoeddwyd rhybuddion llifogydd difrifol, caewyd y ffyrdd cyfagos, a chafodd maes carafannau Kiln Park ei wacáu.

Perygl llifogydd yw'r cyfuniad o debygolrwydd a chanlyniadau posibl llifogydd.

3.1 FFYNONELLAU LLIFOGYDD YN SIR BENFRO

Ffigur 3-1 yn crynhoi'r gwahanol fathau (ffynonellau) o lifogydd sy'n effeithio ar Sir Benfro a'r prif bwynt cyswllt ar gyfer pob un. Yn aml, mae llifogydd yn digwydd oherwydd cyfuniad o'r ffynonellau hyn. Mae'r Strategaeth Leol hon yn ymdrin yn bennaf â dŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin sydd o dan gyfrifoldeb Cyngor Sir Penfro fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol. Mae Cyngor Sir Penfro eisoes yn gyfrifol am lifogydd dŵr daear, ond mae perygl llifogydd o ddŵr daear yn Sir Benfro yn isel iawn.

Cyrsiau dŵr cyffredin yw unrhyw gwrs dŵr, nant, ffos neu gwlfert sy'n cludo dŵr ac nad yw wedi'i ddynodi'n brif afon neu'n garthffos gyhoeddus. Mae llifogydd yn digwydd pan fydd llifoedd yn fwy na sianeli wedi'u blocio neu adeileddau waethygu llifogydd.

Cysylltwch â **Chyngor Sir Penfro fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn yr achos hwn.**

Mae **prif afonydd** yn gyrsiau dŵr sydd wedi'u dosbarthu'n brif afonydd oherwydd eu pwysigrwydd ar gyfer draenio tir a pherygl llifogydd. Maent yn tueddu i fod yn afonydd mwy ond nid yw hynny'n wir bob amser. Yn Sir Benfro, mae nifer o brif afonydd, a ddangosir ar y map yn Ffigur 3.1.1. Mae llifogydd yn digwydd yn yr un ffordd ag ar gyfer cyrsiau dŵr cyffredin.

Cysylltwch â **Chyfoeth Naturiol Cymru** yn yr achos hwn.

Mae **llifogydd arfordirol** yn digwydd pan fydd llanw uchel yn cyfuno â thywydd garw, gan arwain at ymchwyddiadau storm a thonnau mawr. Gall amddiffynfeydd gael eu trechu neu gall tir isel ger yr arfordir gael ei orlifo.

Erydu arfordirol yw pan fydd y tir yn cael ei dreulio gan effaith tonnau, hindreulio neu wyntoedd cryfion. Gall hyn achosi newidiadau sylweddol i arfordiroedd a gwneud lleoliadau yn agored i berygl llifogydd.

Cysylltwch â **Chyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Penfro** yn yr achos hwn.

Mae llifogydd o **garthffosydd** yn aml yn cael eu hachosi gan ormodedd o ddŵr wyneb yn mynd i mewn i'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus ac yn llethu capasiti'r rhwydwaith draenio. Gallant hefyd gael eu hachosi gan gwymp neu rwystrau yn y rhwydwaith neu os bydd pympiau'n methu â gweithredu fel y bwriadwyd. Gall llifogydd ddigwydd o ddŵr budr, dŵr wyneb a charthffosydd cyfun.

Cysylltwch â **Dŵr Cymru fel yr ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth** yn yr achos hwn.

Mae llifogydd **ar y ffyrdd** yn digwydd pan fydd glaw trwm yn uwch na chapasiti systemau draenio'r priffyrdd a gallant arwain at ddŵr yn cronni ar ffyrdd ac amodau gyrru peryglus.

Cysylltwch ag **Asiant Cefnffyrdd De Cymru** ar gyfer llifogydd ar draffyrdd neu gefnffyrdd mawr a **Chyngor Sir Penfro fel yr Awdurdod Priffyrdd** ar gyfer ffyrdd eraill.

Mae llifogydd **cronfeydd dŵr** yn digwydd pan fo methiant mewn mannau storio uwchben y ddaear (fel toriad mewn arglawdd) sy'n rhyddhau dŵr, gan effeithio ar y tir o amgylch ac ardaloedd i lawr yr afon. Gall hyn ddigwydd heb fawr o rybudd ac arwain at lifogydd peryglus iawn ond mae'n brin yn y DU gan fod cronfeydd dŵr mawr yn cael eu rheoli'n llym. Gallai pyllau llai a mannau storio hefyd fod yn ffynhonnell llifogydd.



Mae llifogydd **dŵr daear** yn digwydd pan fydd y lefel trwythiad naturiol yn codi uwchlaw lefel y ddaear neu lle mae dŵr yn llifo o ffynhonnau naturiol. Mae hyn yn tueddu i ddigwydd ar ôl cyfnodau hir o law trwm yn effeithio ar ardaloedd isel. Gall math o lifogydd dŵr daear hefyd ddigwydd ar lethrau serth lle mae dŵr sydd wedi suddo i'r ddaear yn dod allan ymhellach i lawr yr allt.

Cysylltwch â **Chyngor Sir Penfro fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol** yn yr achos hwn.

Ffigur 3-1 – Ffynonellau perygl llifogydd

3.2 SUT RYDYM YN ASESU PERYGL LLIFOGYDD

Mae Cyngor Sir Penfro, fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, yn defnyddio nifer o setiau data, ynghyd â gwybodaeth leol a thystiolaeth hanesyddol, i asesu perygl llifogydd yn yr ardal leol. Mae'r setiau data hyn yn helpu Sir Benfro i ddeall yr ardaloedd lle mae llifogydd yn fwy tebygol o ddigwydd ac yn helpu i reoli a lleihau perygl llifogydd yn effeithiol.

Yn dilyn y Strategaeth Leol flaenorol a'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd blaenorol, bu diweddariadau a gwelliannau i'r mapiau sydd ar gael a'r dull o gofnodi digwyddiadau llifogydd, sydd wedi rhoi gwell dealltwriaeth i'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol o berygl llifogydd yn Sir Benfro. Rhestrir y setiau data sydd ar gael isod:

3.2.1 MAPIAU PERYGL A PHERYGLON LLIFOGYDD CENEDLAETHOL ASESIAD PERYGL LLIFOGYDD CYMRU

Diweddarwyd y mapiau yn 2020 ar ôl cwblhau prosiect Asesiad Perygl Llifogydd Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru ar raddfa genedlaethol.

Mae’r Mapiau Peryglon Llifogydd Cenedlaethol yn dangos y perygl o lifogydd o afonydd, y môr, dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach. Ar gyfer pob ffynhonnell, mae’r allbynnau’n cynnwys graddau’r perygl llifogydd, dyfnder llifogydd, graddfeydd perygl wedi’u mapio’n bedwar band (isel, perygl i rai, perygl i’r mwyafrif a pherygl i bawb), a maint y cyflymder. Mae pob allbwn wedi'i safoni ac wedi'i fapio ar gyfer tri chategori risg, sef uchel, canolig ac isel.

Mae’r Mapiau Perygl Llifogydd Cenedlaethol yn cynnwys data Set Offer Economaidd Cyfoeth Naturiol Cymru, sy’n edrych ar nifer o fetrigau, gan gynnwys yr effaith ar bobl, effeithiau economaidd (eiddo dibreswyl, gwasanaethau allweddol, cysylltiadau trafnidiaeth) ac effeithiau amgylcheddol (ardaloedd gwarchodedig o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, parciau a gerddi, a safleoedd hanesyddol a threftadaeth) ar hyn o bryd ar gyfer tair ffynhonnell llifogydd, sef afonydd, y môr, a dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach. Dangosir yr wybodaeth hon ar raddfa gymunedol gan ddefnyddio polygonau'r Gofrestr Cymunedau mewn Perygl.

3.2.2 MAP LLIFOGYDD AR GYFER CYNLLUNIO

Mae disgwyl i Lywodraeth Cymru roi Nodyn Cyngor Technegol 15 ar ffurf ddiwygiedig ar waith yn fuan, a fydd yn cael ei gefnogi gan y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ac a fydd yn disodli’r Map Cyngor Datblygu presennol. Mae’r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn dangos graddau posibl llifogydd, gan dybio nad oes unrhyw amddiffynfeydd yn eu lle, o afonydd a’r môr a dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach, gan ymgorffori lwfansau newid hinsawdd. Mae’r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio hefyd yn cynnwys haen sy’n dangos y parthau amddiffynedig, sy’n ardaloedd sy’n elwa o amddiffynfeydd rhag llifogydd awdurdod rheoli risg gydag isafswm safon amddiffyn o 1 mewn 100 mlynedd (heddiw) ar gyfer afonydd ac 1 mewn 200 mlynedd (heddiw) ar gyfer y môr.

3.2.3 YMCHWILIADAU I LIFOGYDD A DIGWYDDIADAU LLIFOGYDD HANESYDDOL ADRAN 19

Mae gan yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ddyletswydd, i’r graddau y mae’n ei hystyried yn angenrheidiol neu’n briodol, i ymchwilio i achosion o lifogydd, gan gynnwys nodi’r achosion, a yw’r awdurdodau rheoli risg perthnasol wedi cyflawni eu dyletswyddau mewn ymateb i’r llifogydd, a’r camau gweithredu sydd eu hangen i leihau neu atal llifogydd yn y dyfodol. Dylid nodi na fydd pob digwyddiad llifogydd yn ysgogi ymchwiliad llifogydd

adran 19 ffurfiol; fodd bynnag, mae Sir Benfro yn gwneud ei gorau i fynychu ac ymchwilio i bob digwyddiad llifogydd a adroddir i ddeall yr achos ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen. Cedwir cofnodion o ddigwyddiadau llifogydd yr adroddwyd amdanynt ar system ar-lein Sir Benfro.

Gall ymchwiliadau llifogydd adran 19 a chofnodion digwyddiadau llifogydd hanesyddol fod yn ddefnyddiol o ran darparu cyd-destun lleol ychwanegol a nodi ardaloedd ychwanegol nad ydynt efallai wedi'u hamlygu fel rhai sydd mewn perygl o lifogydd ar fapiau cenedlaethol.

3.2.4 ASESIAD STRATEGOL O GANLYNIADAU LLIFOGYDD

Mae'r Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd, a baratowyd i gefnogi'r ail Gynllun Datblygu Lleol, sydd ar ddod, hefyd yn asesu perygl llifogydd o bob ffynhonnell yn ystod y senario sylfaenol a senario'r dyfodol, gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael a chofnodion digwyddiadau hanesyddol.

3.2.5 YMGYNGHORI AG AWDURDODAU RHEOLI RISG ERAILL

Mae ymgynghori ag awdurdodau rheoli risg eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru hefyd yn helpu i bennu ardaloedd ychwanegol nad ydynt efallai'n cael eu dangos fel rhai sydd mewn perygl o lifogydd ar fapiau cenedlaethol ond lle gallai fod materion wedi'u nodi neu ddigwyddiadau wedi'u cofnodi.

3.2.6 FFINIAU ARDALOEDD CYMUNEDOL

Yn unol â'r mapiau Perygl Llifogydd a Pheryglon Llifogydd Cenedlaethol a'r Strategaeth Genedlaethol, mae Sir Benfro wedi'i rhannu'n un ar bymtheg o ardaloedd cymunedol sydd wedi'u hamlinellu gan ystyried y ffiniau a ddefnyddir yn y Gofrestr Cymunedau mewn Perygl yn ogystal â dalgylchoedd hydrolegol. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer mesur perygl llifogydd ar raddfa leol ac yn sicrhau bod y cymunedau sydd â'r perygl mwyaf yn cael eu nodi.

3.3 TROSOLWG O BERYGL LLIFOGYDD YN EIN HARDAL

Mae'r adran hon yn crynhoi'r gwahanol ffynonellau llifogydd ar draws Sir Benfro gyda ffocws arbennig ar y perygl llifogydd lleol.

Pennir llifogydd gan nifer o ffactorau: gall y dopograffeg, y ddaeareg a defnydd tir gael effaith sylweddol ar ble mae llifogydd yn debygol o ddigwydd.

Mae topograffeg Sir Benfro yn amrywio gyda thir uwch ym Mynydd Preseli yn rhan ogleddol a gogledd-ddwyreiniol y sir, gyda'r ardal sy'n weddill ar y cyfan yn llwyfandir tonnog is. Nodweddir yr arfordir gan glogwyni môr ar hyd y rhan fwyaf o'i hyd.

Mae daeareg Sir Benfro yn cynnwys creigwely gwaddodol ac igneaidd yn bennaf. Mae Maes Glo Sir Benfro yn ymestyn o Saundersfoot i Aberllydan. Nid yw'r creigwely yn arbennig o athraidd.

Mae defnydd tir ar draws y sir yn dir fferm yn bennaf gyda phentrefi ac aneddiadau bach, gwledig ac anghysbell. Mae'r ychydig o ganolfannau trefol mawr, sef Hwlffordd, Penfro, Aberdaugleddau, Neyland, Abergwaun ac Wdig, a Dinbych-y-pysgod, yn ffurfio llawer o'r canolfannau poblogaeth ac, felly, o ystyried eu dwysedd poblogaeth uwch, mae'r perygl llifogydd i bobl ac eiddo yn y lleoliadau hyn yn gyffredinol uwch.

Tabl 3-1 yn dangos yr asesiad perygl llifogydd i bob derbynnydd risg ar gyfer Sir Benfro o afonydd, cyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb, a'r môr. Mae'r cyfrifon yn gronnol, h.y. mae cyfrifiadau risg isel yn

cynnwys y rhai sydd hefyd yn wynebu risg ganolig ac uchel. Mae mwyafrif y perygl llifogydd i eiddo yn gysylltiedig â chyrsiau dŵr bach a llifogydd dŵr wyneb. Mae'r cyfrifon yn dangos bod tua 370 o eiddo preswyl yn Sir Benfro mewn perygl mawr o lifogydd o gyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb, 114 o eiddo mewn perygl mawr o lifogydd afonydd, a 60 o eiddo preswyl mewn perygl mawr o lifogydd arfordirol. Mae mwy o dir amaethyddol mewn perygl o lifogydd afonydd na ffynonellau eraill. Efallai y bydd rhywfaint o gyfrif dyblyg o dderbynyddion lle dangosir eu bod mewn perygl ar setiau data lluosog.

3.3.1 PERYGL LLIFOGYDD O'R PRIF AFONYDD

Mae llifogydd o afonydd yn digwydd pan fydd lefelau afonydd yn cynyddu'n ddigonol i ddod dros lannau neu amddiffynfeydd, neu pan fydd amddiffynfeydd yn methu.

Mynydd Preseli yw lleoliad blaenddyfroedd dalgylchoedd afon mwyaf y sir, gyda glaw yn disgyn yn yr ardal hon yn llifo i lednentydd afon Cleddau Wen ac afon Cleddau Ddu, afon Gwaun ac afon Nanhyfer. Mae'r gorlifdiroedd ar gyfer yr afonydd hyn wedi'u diffinio'n gymharol dda o fewn eu dyffrynnoedd rhychog, er bod rhywfaint o berygl llifogydd i eiddo o afon Cleddau Wen yn Hwlffordd.

Mae gan afon Rhydeg yn ne'r sir orlifdir ehangach wrth iddi lifo trwy Ddinbych-y-pysgod. Gwaethygir llifogydd gan gyfyngiadau a achosir gan gwlfertau o dan yr A4139 a'r rheilffordd, sy'n culhau'r llwybr sydd ar gael i lif yr afon.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ardaloedd rhybuddion llifogydd sy'n cwmpasu'r holl brif afonydd, a rhoddir rhybuddion pan fydd llifogydd yn bosibl. Dim ond ychydig o ardaloedd rhybuddion llifogydd afonol sydd yn y sir, wedi'u cyfyngu i afon Rhydeg yn Ninbych-y-pysgod, afon Solfach yn Solfach, afon Cleddau Wen yn Hwlffordd, a Ford's Lake yn Stepaside. Cyhoeddir y rhybuddion hyn pan ddisgwylir llifogydd ac mae angen gweithredu ar unwaith.

3.3.2 PERYGL LLIFOGYDD O GYRSIAU DŴR CYFFREDIN/BACH A DŴR WYNEB

Mae cyrsiau dŵr cyffredin yn gyrsiau dŵr nad ydynt wedi'u dynodi'n brif afon, ac maent hefyd yn cynnwys nentydd, ffosydd, llynnoedd, pyllau, draeniau a chwlfertau. Mae llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin yn digwydd pan fydd cyrsiau dŵr yn codi'n fwy na'u cynhwysedd a lefelau dŵr yn mynd dros lefelau'r glannau neu'n torri'r amddiffynfeydd rhag llifogydd. Gall llifogydd hefyd gael eu hachosi gan rwystrau yn y rhwydwaith draenio, ac mae hyn yn digwydd amlaf oherwydd bod gridiau wedi'u blocio wrth y fynedfa i'r cwlfertau ond hefyd mae silt a malurion yn cronni y tu mewn i gwlfertau.

Mae llifogydd dŵr wyneb yn digwydd pan fydd glaw trwm hirfaith yn uwch na chapasiti rhwydwaith draenio'r ardal leol. Mae dŵr yn llifo ar draws y ddaear ac mae hyn yn golygu bod ardaloedd is yn fwy agored i lifogydd gan fod y pyllau dŵr wyneb mewn pantiau a chafnau. Gall llifogydd o ddŵr wyneb gael eu gwaethygu gan arwynebau anhydraidd a dyna pam eu bod yn tueddu i ddigwydd yn amlach mewn canolfannau trefol neu ar ffyrdd.

Mae llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin llai a dŵr wyneb yn aml yn cael eu trin gyda'i gilydd gan eu bod yn perthyn yn agos gyda mecanweithiau llifogydd tebyg ac mae hyn yn wir am y mapiau cenedlaethol. Ar gyfer cyrsiau dŵr cyffredin mwy, gall y mapiau llifogydd cenedlaethol o afonydd roi darlun gwell.

Yn Sir Benfro, yn gyffredinol mae'r perygl mwyaf o lifogydd o gyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb yn y canolfannau trefol, lle gall y seilwaith draenio gael ei lethu.

3.3.3 PERYGL LLIFOGYDD O'R MÔR

Mae llifogydd arfordirol yn digwydd pan fydd llanw uchel yn cyfuno â thywydd garw, gan arwain at ymchwyddiadau storm a thonnau mawr. Gall amddiffynfeydd gael eu trechu neu gall tir isel ger yr arfordir gael ei orlifo. Yn ogystal, gall lefelau dŵr llanw uchel waethygu llifogydd afonol a dŵr wyneb trwy gloi gollyngfeydd llanw.

Gan fod llawer o arfordir Sir Benfro yn cynnwys clogwyni môr, mae perygl llifogydd arfordirol i eiddo yn gyffredinol wedi'i grynhoi i fannau isel ar hyd yr arfordir mewn lleoliadau sy'n cynnwys Dinbych-y-pysgod, Wdig, Abergwaun, Hwlffordd, Penfro, Doc Penfro a Threfdraeth.

3.3.4 PERYGL LLIFOGYDD O GARTHFFOSYDD

Mae carthffosydd yn gorlifo o dyllau archwilio a gylïau pan fydd carthffosydd yn cael eu llethu gan law trwm neu pan fyddant yn cael eu blocio, a phan eir y tu hwnt i gapasiti'r rhwydwaith draenio. Gall tir ac eiddo gael eu gorlifo, a gall hyn hefyd gynnwys carthffosiaeth amrwd weithiau, yn enwedig lle mae carthffosydd cyfun yn y sir.

Mae nifer o achosion o lifogydd carthffosydd wedi'u cofnodi sydd wedi digwydd yn y sir, a dangosir y rhain yn y mapiau ardaloedd cymunedol yn Atodiad A.

3.3.5 PERYGL LLIFOGYDD O GRONFEYDD DŴR

Mae llifogydd cronfeydd dŵr yn digwydd pan fo methiant mewn mannau storio uwchben y ddaear (fel toriad mewn arglawdd), sy'n rhyddhau dŵr, gan effeithio ar y tir amgylchynol ac ardaloedd i lawr yr afon. Gall hyn ddigwydd heb fawr o rybudd ac arwain at lifogydd peryglus iawn ond mae'n brin yn y DU gan fod cronfeydd dŵr mawr yn cael eu rheoli'n llym. Gallai pyllau llai a mannau storio hefyd fod yn ffynhonnell llifogydd.

Mae mapiau cenedlaethol ar gael sy'n dangos y sefyllfa waethaf posibl pe bai cronfa ddŵr fawr yn methu ac yn rhyddhau'r dŵr sydd ganddi. Mae hyn yn gyffredinol yn dilyn gwaelodion y dyffrynnoedd gyda rhai ardaloedd mwy mewn perygl lle mae cronfeydd dŵr wedi'u lleoli'n agos at ardaloedd trefol. Fodd bynnag, mae'r llifogydd hyn o gronfeydd dŵr yn annhebygol iawn o ddigwydd gan fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau bod cronfeydd dŵr yn cael eu harchwilio'n rheolaidd, a bod gwaith diogelwch hanfodol yn cael ei gynnal. Llys-y-frân yw'r gronfa ddŵr fwyaf yn Sir Benfro ac mae Dŵr Cymru yn berchen arni ac yn ei gweithredu.

Tabl 3-1 – Trosolwg o berygl llifogydd yn Sir Benfro

Ffynhonnell	Afon			Cyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb			Arfordirol		
Derbynnydd risg	**Uchel**	**Canolig**	**Isel**	**Uchel**	**Canolig**	**Isel**	**Uchel**	**Canolig**	**Isel**
Eiddo preswyl mewn perygl o lifogydd	114	159	365	367	538	1,448	60	113	198
Gwasanaethau hanfodol (nifer)	25	34	51	63	78	134	14	20	30
Eiddo dibreswyl (nifer)	128	179	277	144	218	401	64	111	147
Prif ffyrdd / cefnffyrdd (km)	30	41	66	44	66	152	23	32	37
Prif reilffyrdd (km)	1	1	6	5	6	13	0	0	0
Tir amaethyddol – graddau 1, 2 a 3 (hectarau)	1,875	2,139	2,627	967	1,258	2,186	1,002	1,067	1,157
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) (hectarau)	557	610	706	197	229	306	459	473	484
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) (hectarau)	6	6	7	5	6	12	44	46	48
Safleoedd Ramsar (hectarau)	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) (hectarau)	660	723	834	219	258	354	509	526	571
Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG) (hectarau)	54	59	65	19	19	23	12	13	13
Gwarchodfeydd Natur Lleol (hectarau)	16	17	19	1	1	1	11	11	12
Coetir hynafol (hectarau)	140	159	194	106	129	176	30	34	39
Parciau a gerddi cofrestredig (hectarau)	61	70	87	37	41	49	26	28	29
Parciau gwledig (hectarau)	82	83	84	80	80	80	0	0	0
Henebion cofrestredig (hectarau)	4	4	5	2	3	5	5	6	6
Adeiladau rhestredig (nifer)	101	113	182	10	15	26	77	96	122
Parc Cenedlaethol (hectarau)	809	923	1,111	425	558	881	528	573	670
Ardaloedd cadwraeth (hectarau)	39	42	56	12	16	25	57	64	73
Carafannau (nifer)	128	356	601	75	89	134	5	6	515

3.4 PERYGL LLIFOGYDD YN EICH CYMUNED

I grynhoi risg ar lefel fwy lleol, rydym wedi rhannu Sir Benfro yn un ar bymtheg o ardaloedd cymunedol. Dangosir yr ardaloedd hyn yn Ffigur 3-2. Tabl 3-2 yn dangos crynodeb lefel uchel o'r ardaloedd cymunedol ac eiddo preswyl sydd mewn perygl. Mae Atodiad A yn darparu mapiau manwl gydag amlinelliadau perygl llifogydd ar gyfer pob ffynhonnell ar gyfer pob ardal gymunedol, a thablau llawn o dderbynyddion risg.

Rhif	Enw'r gymuned
1	Hwlffordd
2	Cleddau Wen
3	Tyddewi a Solfach i Abergwaun
4	Niwgwl i Aber-bach
5	Llanisan-yn-Rhos
6	Aberdaugleddau
7	Cleddau Ddu
8	Penfro a Doc Penfro
9	Angle a Chastellmartin
10	Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot
11	Arberth
12	Dalgylch Afon Taf – Gogledd
13	Dalgylch Afon Cuch
14	Dalgylch Trefdraeth a Nanhyfer
15	Abergwaun a Bro Gwaun
16	Dalgylch Afon Taf – De



Allwedd:

Ffin Cyngor Sir Penfro

Cyrsiau dŵr

Prif afon Cyfoeth Naturiol Cymru

Cwrs dŵr cyffredin

Manylion y lluniad	
Dyddiad	Mawrth 2024
Diwygiad	001
Statws	Drafft
Lleoliad	Cyngor Sir Penfro
Lluniwyd gan BS	Gwiriwyd gan CS / Cymeradwywyd gan JG

Yn cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata (2024). Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl (2024).

STRATEGAETH LEOL AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD SIR BENFRO

Ffigur 3-2 Ardaloedd cymunedol

Tabl 3-2 – Trosolwg o berygl llifogydd mewn ardaloedd cymunedol

Rhif yr ardal	Ardal gymunedol	Maint (hectarau)	Aneddiadau nodedig	Disgrifiad	Ffynonellau perygl llifogydd			Afon			Cyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb			Arfordirol		
					Afon	Cyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb	Arfordirol	Uchel	Canolig	Isel	Uchel	Canolig	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Pob un	**SIR BENFRO**	**161,791**	**-**	**Y sir gyfan**	✓	✓	✓	**114**	**159**	**365**	**367**	**538**	**1,448**	**60**	**113**	**198**
1	Hwlffordd	1,913	Hwlffordd	Canolfan drefol Hwlffordd, gan gynnwys Pontfadlen a Llwynhelyg. Cysylltiadau trafnidiaeth allweddol ar hyd ffyrdd yr A40, yr A487 a'r A4086 a changen Aberdaugleddau o Reilffordd Gorllewin Cymru. Daw'r risg yn bennaf o gyrsiau dŵr bach a dŵr ffo wyneb yn ogystal â risg afonol o afon Cleddau Wen.	✓	✓	✓	19	33	90	12	29	159	1	5	7
2	Cleddau Wen	25,414	Cas-blaidd, Treletert	Yn cynnwys y rhan fwyaf o dalgylch afon Cleddau Wen ac eithrio Hwlffordd. Mae'r dalgylch yn ei hanfod yn wledig gydag aneddiadau pentrefol drwyddo draw. Mae cysylltiadau trafnidiaeth allweddol yn cynnwys yr A40 rhwng Hwlffordd ac Abergwaun. Daw'r risg yn bennaf o gyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb.	✓	✓	X	3	3	8	16	20	48	-	-	-
3	Tyddewi a Solfach i Abergwaun	15,524	Tyddewi, Solfach, Porth-gain, Abereiddi, Abercastell	Aneddiadau gwasgaredig, gan gynnwys dinas Tyddewi yng ngogledd-orllewin Sir Benfro yn ymestyn o Benrhyn Dewi i Wdig. Mae darn hir o arfordir, ond mae yna ychydig o bwyntiau isel, sy'n golygu risg arfordirol isel. Daw'r risg yn bennaf o gyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb.	✓	✓	✓	19	24	30	20	25	66	0	0	0
4	Niwgwl i Aber-bach	5,076	Niwgwl, Y Garn, Nolton Haven, Aberllydan, Aber-bach	Darn gwledig o'r arfordir rhwng Niwgwl ac Aber-bach. Llifogydd blaenorol ar yr A487 yn Niwgwl oherwydd y llanw a thonnau yn goresgyn amddiffynfeydd arfordirol. Mae'r risg wedi'i chanoli ar Niwgwl ac yn bennaf o gyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb.	✓	✓	✓	1	1	1	32	35	45	0	0	0
5	Llanisan-yn-Rhos	14,208	Neyland, Llanisan-yn-Rhos, Marloes, Dale, Tiers Cross, Johnston	Ardal wledig yn bennaf sy'n ymestyn o Marloes i afon Cleddau Wen. Yn cynnwys anheddiad mwy Neyland a therfynellau tanwydd South Hook, Dragon ac Aberdaugleddau, sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Daw'r risg yn bennaf o gyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb.	✓	✓	✓	0	0	2	22	28	91	2	8	12
6	Aberdaugleddau	1,332	Aberdaugleddau	Canolfan drefol Aberdaugleddau, sy'n cynnwys cangen Aberdaugleddau o Reilffordd Gorllewin Cymru a chefnffordd yr A4076. Daw'r risg yn bennaf o gyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb.	✓	✓	✓	3	4	4	8	14	55	1	3	5
7	Cleddau Ddu	32,576	Clunderwen, Sageston, Cosheston	Ardal fawr ond gwledig yn ei hanfod yn draenio Mynydd Preseli yn y gogledd ac yn ymestyn i'r de i lawr i afon Daugleddau, gan ymgorffori dalgylch afon Cleddau Ddu. Mae'r ardal yn cynnwys cysylltiadau trafnidiaeth pwysig yr A40 a'r A477, ynghyd â changen Abergwaun o Reilffordd Gorllewin Cymru. Daw'r risg yn bennaf o gyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb.	✓	✓	✓	3	7	19	24	39	87	1	2	2
8	Penfro a Doc Penfro	1,304	Penfro a Doc Penfro	Canolfan drefol Penfro a Doc Penfro. Y perygl llifogydd arfordirol uchaf i eiddo preswyl yn y sir a risg o gyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb sy'n gymharol uchel.	✓	✓	✓	0	0	5	16	37	141	22	43	88
9	Angle a Chastellmartin	12,097	Angle, Castellmartin, Freshwater East, Jameston	Ardal wledig yn bennaf gyda seilwaith o bwysigrwydd cenedlaethol, gan gynnwys Purfa Penfro a Gorsaf Bŵer Penfro. Mae hefyd yn cynnwys maes tanio milwrol Castellmartin a	✓	✓	✓	1	2	3	6	10	56	2	6	13

Rhif yr ardal	Ardal gymunedol	Maint (hectarau)	Aneddiadau nodedig	Disgrifiad	Ffynonellau perygl llifogydd			Afon			Cyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb			Arfordirol		
					Afon	Cyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb	Arfordirol	Uchel	Canolig	Isel	Uchel	Canolig	Isel	Uchel	Canolig	Isel
				changen Doc Penfro o Reilffordd Gorllewin Cymru. Mae'r risg yn isel ar y cyfan, gyda'r risg bennaf o gyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb.												
10	Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot	9,452	Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot, Yr Eglwys Lwyd, Tredemel, Amroth, Maenorbŷr	Trefi arfordirol Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot, yn ymestyn hyd at Amroth a'r ffin sirol. Yn cynnwys cefnffyrdd yr A477 a'r A478, yn ogystal â changen Doc Penfro o Reilffordd Gorllewin Cymru. Mae perygl llifogydd afonol yn digwydd o afon Rhydeg, sy'n gorlifo'r parc gwyliau i'r gogledd o'r rheilffordd, ac eiddo yn y Clicketts. Mae yna hefyd risg o lifogydd o gyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb yn ogystal â pheth perygl llifogydd arfordirol.	✓	✓	✓	5	16	65	53	83	175	6	11	21
11	Arberth	848	Arberth	Canolfan drefol Arberth. Mae'r ardal yn cynnwys darn byr o gefnffordd yr A40. Mae perygl llifogydd yn isel, ac yn gyfyngedig yn gyffredinol i lifogydd o gyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb.	✓	✓	X	0	0	2	5	10	35	-	-	-
12	Dalgylch Afon Taf – Gogledd	2,926	Hermon, Llanfyrnach, Glandŵr	Ardal wledig ym mlaenddyfroedd gogleddol afon Taf. Dim cytrefi na seilwaith trefol sylweddol. Mae perygl llifogydd yn isel o bob ffynhonnell.	✓	✓	X	0	0	1	5	6	13	-	-	-
13	Dalgylch Afon Cuch	8,575	Bwlch-y-groes, Boncath, Cilgerran, Bridell	Ardal wledig sy'n cwmpasu dalgylch gorllewinol afon Cuch. Dim cytrefi na seilwaith trefol sylweddol. Mae perygl llifogydd yn bennaf o gyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb.	✓	✓	✓	3	4	21	17	20	48	0	0	0
14	Dalgylch Trefdraeth a Nanhyfer	18,887	Trefdraeth, Crymych, Llandudoch, Dinas Cross	Mae'r ardal yn cynnwys yr arfordir rhwng Aberteifi a Threfdraeth a thua'r tir i Grymych ym mlaen dalgylch afon Nanhyfer ym Mynydd Preseli. Mae'r seilwaith yn cynnwys ffordd yr A487 rhwng Aberteifi ac Abergwaun. Dyma ardal y sir lle ceir y risg uchaf i eiddo preswyl o gyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb, gyda pheth risg afonol mewn cymunedau ar hyd afon Nanhyfer a pheth risg arfordirol yn Nhrefdraeth.	✓	✓	✓	49	52	63	82	99	211	5	8	15
15	Abergwaun a Bro Gwaun	7,856	Abergwaun, Wdig	Canolfannau trefol Abergwaun ac Wdig, gan gynnwys dalgylch afon Gwaun. Mae perygl llifogydd wedi'i ganoli ar Abergwaun ac Wdig, yn enwedig yn y Cwm. Mae seilwaith sylweddol yn cynnwys cefnffyrdd yr A40 a'r A487, cangen Abergwaun o Reilffordd Gorllewin Cymru, a Harbwr Abergwaun a'r porthladd fferi. Mae risg yn bresennol o bob un o'r tair prif ffynhonnell, gyda risg gymharol uchel o gymharu â gweddill y sir o gyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb.	✓	✓	✓	8	13	49	40	71	199	20	27	35
16	Dalgylch Afon Taf – De	3,804	Llanddewi Felffre, Llanbedr Felffre	Ardal wledig ym mlaenddyfroedd deheuol afon Taf. Dim cytrefi trefol sylweddol ond mae'n cynnwys cefnffordd yr A40 a changen Doc Penfro o Reilffordd Gorllewin Cymru. Mae perygl llifogydd yn isel o bob ffynhonnell.	✓	✓	X	0	0	2	9	12	19	-	-	-

4 NEWID HINSAWDD

Senedd Cymru oedd y senedd gyntaf yn y byd i ddatgan argyfwng hinsawdd. Mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o gynyddu'r perygl o lifogydd ledled Cymru, nid yn unig drwy godiad yn lefel y môr ond hefyd o stormydd amlach a mwy dwys, fflachlifoedd ac ymchwyddiadau storm. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn amlygu sut mae Cymru eisoes yn profi effeithiau andwyol yn sgil newid yn yr hinsawdd, megis codiad yn lefel y môr, llifogydd a thywydd poeth.

Yn y gaeaf, disgwylir i lawiad yng Nghymru gynyddu tua 6% erbyn y 2050au o linell sylfaen 1981–2000. I'r gwrthwyneb, disgwylir i lawiad yr haf ostwng tua 15% erbyn y 2050au, a rhwng 18% a 26% erbyn y 2080au.[1]

Cyhoeddodd Cyngor Sir Penfro argyfwng hinsawdd ym mis Mai 2019 ac aeth ymlaen i greu cynllun gweithredu i lywio'r cyngor tuag at ddod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030. Mae Strategaeth Ynni De Cymru yn darparu llwybr strategol ac mae Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Benfro yn adeiladu ar y gwaith hwn, gan ddisgrifio camau y mae angen eu cymryd i gyrraedd nodau ynni a hinsawdd.

Bydd glawiad uwch yn rhoi mwy o bwysau ar gapasiti systemau draenio a seilwaith rheoli perygl llifogydd presennol, gan arwain at achosion o lifogydd amlach a mwy difrifol. Ar ben hynny, bydd lefelau môr uwch yn cynyddu'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol. Mae'r mapiau llifogydd sydd ar gael yn dangos y bydd newid hinsawdd yn arwain at gynnydd mewn llifogydd gyda pherygl llifogydd o'r môr yn ymledu ymhellach i dir isel yn Niwgwl, Dinbych-y-pysgod, Hwlffordd a Phenfro. Dangosir bod y risg o afonydd yn cynyddu, yn enwedig o amgylch Hwlffordd. Mae lefelau cynyddol afonydd hefyd yn debygol o effeithio ar weithrediad systemau draenio, gan arwain at fwy o lifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin.

4.1 SUT MAE EIN STRATEGAETH YN MYND I'R AFAEL Â'R RISGIAU HYN

Bydd y Strategaeth Leol hon yn helpu i reoli rhai o effeithiau newid hinsawdd yn ein hardal. Mae'r strategaeth yn cymryd golwg hirdymor gydag amcanion, mesurau a chamau gweithredu i'n helpu i leihau'r perygl o lifogydd lle y gallwn, yn ogystal ag addasu ein cymunedau a'n seilwaith i ddod yn fwy gwydn i lifogydd pan fyddant yn digwydd.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei ddatblygu gan ystyried effeithiau newid hinsawdd ar berygl llifogydd. Disgwylir i TAN15 diwygiedig ddod i rym yn fuan. Mae'r diffiniad diwygiedig o barthau llifogydd yn cynnwys yn benodol ar gyfer effaith newid hinsawdd gyda chanllawiau a pholisïau sy'n diffinio datblygiad priodol ar gyfer pob parth.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar addasu i newid hinsawdd yn pennu lwfansau y dylid eu defnyddio wrth asesu a datblygu cynlluniau lliniaru llifogydd. Mae'r lwfansau'n caniatáu ar gyfer yr ansicrwydd mewn rhagolygon newid hinsawdd ac yn sicrhau bod yr effeithiau'n cael eu hystyried yn gynnar yn y broses ac yn ystyried gwytnwch y cynllun i ragolygon pen uchel. Darperir canllawiau

[1] Addasu i Gynnydd Newid Hinsawdd yng Nghymru, Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Medi 2023

tebyg ar gyfer y lwfansau y dylid eu defnyddio wrth asesu effeithiau datblygiadau newydd mewn Asesiadau Canlyniadau Llifogydd.

5 ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD

5.1 AWDURDODAU RHEOLI RISG A'U SWYDDOGAETHAU

Fel y dangosir yn Ffigur 3-1, mae sawl ffynhonnell wahanol o lifogydd ac mae gan wahanol sefydliadau gyfrifoldebau dros reoli'r perygl. Mae'r term “awdurdod rheoli risg” yn cyfeirio at sefydliadau sydd â phwerau deddfwriaethol ynghylch rheoli perygl llifogydd. Mae awdurdodau rheoli risg ledled Cymru yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, y 22 awdurdod lleol (y ddau fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol a'r Awdurdod Priffyrdd), cwmnïau dŵr, a Llywodraeth Cymru fel yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer cefnffyrdd (drwy eu hasiantau cefnffyrdd). Yn ogystal â'r dyletswyddau statudol a ddiffinnir yn y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, mae'r Ddeddf yn nodi ystod o bwerau caniataol i awdurdodau rheoli risg sy'n eu galluogi i ymgymryd â gweithgareddau diffiniedig os dymunant a bod ganddynt yr adnoddau i wneud hynny.

Mae Tabl 5-1 yn crynhoi pa awdurdodau rheoli risg sy'n bennaf gyfrifol am reoli perygl llifogydd yn dibynnu ar y ffynhonnell. Disgrifir rolau a chyfrifoldebau ymhellach isod. Darperir manylion cyswllt ar wefan y cyngor.[2]

Tabl 5-1 – Cyfrifoldebau awdurdodau rheoli risg ledled Sir Benfro

Ffynhonnell y llifogydd	Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cwmni dŵr (Dŵr Cymru)	Awdurdod Priffyrdd (Cyngor Sir Penfro)	Awdurdod Priffyrdd (Asiant Cefnffyrdd De Cymru)
Arfordirol		✓			
Prif afonydd		✓			
Cwrs dŵr cyffredin	✓				
Dŵr wyneb	✓			✓ (ar neu yn dod o briffyrdd lleol)	✓ (ar neu yn dod o gefnffyrdd)
Dŵr daear	✓				
Carthffosydd yn gorlifo			✓		
Cronfeydd dwr		✓			

[2] https://www.sir-benfro.gov.uk/cynllunio-argyfwng

5.1.1 YR AWDURDOD LLIFOGYDD LLEOL ARWEINIOL (CYNGOR SIR PENFRO)

O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, daeth Cyngor Sir Penfro yn Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ar gyfer ei ardal weinyddol ac mae'n gyfrifol am reoli perygl llifogydd lleol o gyrsiau dŵr cyffredin, dŵr ffo wyneb a dŵr daear.

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 wedi gosod nifer o ddyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, sy'n cynnwys:

- Paratoi strategaethau rheoli perygl llifogydd lleol (y strategaeth hon)
- Dyletswydd i gydymffurfio â'r Strategaeth Genedlaethol
- Dyletswydd i gydweithredu ag awdurdodau eraill, gan gynnwys rhannu data
- Dyletswydd i ymchwilio i bob achos o lifogydd o fewn ei ardal i'r graddau y mae'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn eu hystyried yn angenrheidiol neu'n briodol
- Dyletswydd i gadw cofrestr o adeileddau a nodweddion sy'n debygol o effeithio ar berygl llifogydd
- Dyletswydd i gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy
- Rheoleiddio gweithgareddau a allai effeithio ar lif dŵr mewn cyrsiau dŵr cyffredin

Yn ogystal â'r rhain, mae gan bob Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol nifer o bwerau caniataol, sy'n cynnwys:

- Pwerau i ofyn am wybodaeth
- Pwerau i ddynodi adeileddau neu nodweddion penodol sy'n effeithio ar berygl llifogydd neu erydu arfordirol
- Ehangu pwerau i wneud gwaith i gynnwys camau rheoli risg ehangach
- Y gallu i achosi llifogydd neu erydu arfordirol o dan amodau penodol

Ar 1 Mai 2018 (yn dod i rym ar 7 Ionawr 2019), deddfodd Cymru Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddraeniau dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol sy'n gweithredu fel y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy cyn dechrau ar y gwaith adeiladu. Rhaid i systemau draenio dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd gael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â'r safonau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Mae gan y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy hefyd ddyletswydd i fabwysiadu a chynnal y systemau draenio dŵr wyneb cymeradwy os yw'r cynigion yn unol â'r amodau angenrheidiol. Mae'r rhain fel a ganlyn:-

Ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo, bydd y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy yn mabwysiadu ac yn gyfrifol am gynnal a chadw'r system fel bod y Systemau Draenio Cynaliadwy yn parhau i gydymffurfio â safonau Systemau Draenio Cynaliadwy. Er mwyn i'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy ei mabwysiadu, rhaid i'r system ddraenio gael ei hadeiladu a gweithredu fel y'i cymeradwywyd yn unol â'r safonau Systemau Draenio Cynaliadwy ac unrhyw amodau cymeradwyo a nodir gan y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy. Yr Awdurdod Priffyrdd

Cyngor Sir Penfro sy'n gyfrifol am y ffyrdd nad ydynt yn gefnffyrdd yn y sir tra bod Asiant Cefnffyrdd De Cymru, yn gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru, yn gyfrifol am y rhwydwaith cefnffyrdd.

O dan Ddeddf Priffyrdd 1980, mae'r Awdurdod Priffyrdd yn gyfrifol am gynnal a chadw system ddraenio priffyrdd ac mae'n gyfrifol am wneud gwaith cynnal a chadw arferol ac adweithiol i'r

systemau hyn i sicrhau eu bod yn gweithio’n effeithiol ac yn unol â’r capasiti a ddyluniwyd ar eu cyfer.

5.1.2 CYFOETH NATURIOL CYMRU

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl oruchwylio ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol a dyletswyddau a phwerau i reoli llifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a’r môr.

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 wedi gosod nifer o ddyletswyddau statudol ar Cyfoeth Naturiol Cymru:

- Cydweithredu ag awdurdodau eraill, gan gynnwys rhannu data
- Adrodd i’r Gweinidog ar beryglon llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru, gan gynnwys cymhwyso’r Strategaeth Genedlaethol
- Sefydlu pwyllgorau llifogydd ac arfordirol rhanbarthol (a ddisodlwyd bellach gan Bwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru)

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd nifer o “bwerau caniataol” sy’n caniatáu iddo wneud y canlynol ond sydd heb ei orfodi i’w gwneud:

- Pwerau i ofyn am wybodaeth
- Y gallu i godi ardollau ar gyfer gwaith rheoli perygl llifogydd lleol, drwy'r pwyllgorau llifogydd ac arfordirol rhanbarthol
- Pwerau i ddynodi adeileddau neu nodweddion penodol sy'n effeithio ar berygl llifogydd
- Ehangu pwerau i wneud gwaith i gynnwys camau rheoli risg ehangach
- Y gallu i achosi llifogydd o dan amodau penodol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn gyfrifol am reoleiddio gweithgareddau a allai effeithio ar lif y dŵr mewn prif afonydd.

5.1.3 DŴR CYMRU

Mae Dŵr Cymru yn gyfrifol am ddarparu cyflenwad dŵr yfed parhaus o ansawdd uchel ac am dynnu, trin a chael gwared ar y dŵr gwastraff a gynhyrchir yn briodol. Mae Dŵr Cymru yn gyfrifol am gynnal a chadw ei asedau, sydd, ynghyd â’r uchod, yn gallu cynnwys carthffosydd dŵr wyneb cyhoeddus a charthffosydd cyfun hefyd.

O ran llifogydd, mae gan y cwmni gyfrifoldeb i ymchwilio ac ymateb i lifogydd o systemau dŵr a charthffosiaeth, sy’n cynnwys llifogydd o garthffosydd, llifogydd o bibellau neu brif bibellau dŵr sydd wedi byrstio, neu lifogydd a achosir gan fethiannau yn y system.

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn gosod nifer o ddyletswyddau statudol ar gwmnïau dŵr a charthffosiaeth, gan gynnwys:

- Dyletswydd i weithredu'n gyson â'r Strategaeth Genedlaethol
- Dyletswydd i roi sylw i gynnwys y Strategaeth Leol berthnasol
- Cydweithredu ag awdurdodau eraill, gan gynnwys rhannu data

5.1.4 LLYWODRAETH CYMRU

Mae Asiant Cefnffyrdd De Cymru, yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru, yn cymryd y cyfrifoldebau fel awdurdod rheoli risg o dan y Ddeddf fel y nodir uchod.

Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac yn rheoli'r ffrydiau cyllid grant ar gyfer cynlluniau a gweithgareddau rheoli perygl llifogydd sydd ar gael i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol eraill ac awdurdodau rheoli risg eraill i gefnogi eu gweithgareddau.

5.2 PARTNERIAID CYFRIFOL ERAILL

Yn ogystal â'r awdurdodau rheoli risg dynodedig, mae yna hefyd nifer o sefydliadau ac unigolion eraill sydd â chyfrifoldebau i gynnal eu hasedau a chyfrannu at reoli perygl llifogydd yn effeithiol yn Sir Benfro.

5.2.1 TIRFEDDIANWYR GLAN YR AFON

Y rhain yw perchnogion tir sy'n cyffinio â chwrs dŵr neu sy'n uwchben cwrs dŵr (gan gynnwys nentydd, ffosydd a chwlfertau). Yn gyffredinol, mae tirfeddianwyr glan yr afon yn gyfrifol am y tir hyd at linell ganol unrhyw gwrs dŵr gerllaw eu heiddo.[3]Mae ganddynt nifer o gyfrifoldebau, sy'n cynnwys:

- Sicrhau bod dŵr yn llifo drwy eu tir heb rwystr, llygredd na dargyfeiriad sy'n effeithio ar hawliau pobl eraill
- Cadw'r glannau'n glir o unrhyw beth a allai achosi rhwystr a chynyddu perygl llifogydd
- Cynnal a chadw gwely a glannau'r cwrs dŵr a chlirio unrhyw falurion a allai achosi rhwystr (hyd yn oed pe na bai'n dod o'u tir)
- Derbyn llifoedd llifogydd naturiol trwy eu tir (hyd yn oed os cânt eu hachosi gan gapasiti annigonol i lawr yr afon)
- Peidio ag achosi unrhyw rwystr i symudiad rhydd pysgod
- Sicrhau bod unrhyw adeileddau (cwlfertau, sgriniau sbwriel, coredau) yn glir o falurion

Mae angen i dirfeddianwyr wirio gyda'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (cyrsiau dŵr cyffredin) neu Cyfoeth Naturiol Cymru (prif afonydd) am ofynion cymeradwyo ar gyfer gwaith o fewn neu gerllaw cyrsiau dŵr.

5.2.2 PRESWYLWYR A PHERCHNOGION EIDDO A BUSNESAU

Mae preswylwyr a pherchnogion eiddo a busnesau yn gyfrifol am ddiogelu eu heiddo eu hunain rhag llifogydd a chynnal a chadw unrhyw seilwaith draenio preifat fel gwteri, pibellau dŵr a suddfannau dŵr. Mae gan berchnogion eiddo yr hawl i amddiffyn eu heiddo cyn belled ag nad ydynt yn cynyddu'r risg o lifogydd i eiddo eraill.

Dylai preswylwyr a pherchnogion eiddo sydd mewn perygl mawr o lifogydd ystyried dulliau amddiffyn i wneud yn siŵr eu bod yn ddigon gwydn i wrthsefyll llifogydd ac i helpu i amddiffyn eu hunain rhag llifogydd yn y dyfodol. Mae gan wefan Blue Pages[4] ragor o wybodaeth am sut i leihau'r perygl o lifogydd i gartrefi a busnesau. Rydym hefyd yn argymell bod trigolion a busnesau yn paratoi

[3] https://naturalresources.wales/flooding/owning-a-watercourse/?lang=cy

[4] https://bluepages.org.uk/

cynllun llifogydd fel eich bod yn gwybod beth i'w wneud os bydd llifogydd. Mae canllawiau ar sut i ysgrifennu cynllun ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.[5]

5.2.3 NETWORK RAIL A THRAFNIDIAETH CYMRU

Er nad yw'r sefydliadau hyn yn awdurdodau rheoli risg dynodedig, mae ganddynt gyfrifoldebau fel tirfeddianwyr a pherchnogion/gweithredwyr seilwaith i gynnal a chadw seilwaith draenio ac asedau sy'n peri perygl llifogydd.

5.2.4 RHANDDEILIAID/PARTNERIAID ERAILL

Mae sawl adran arall o'r cyngor, yn ogystal â sefydliadau allanol, sydd â chyfrifoldebau fel tirfeddianwyr, sydd â buddiannau rhanddeiliaid, neu a allai weithio mewn partneriaeth â'r cyngor i reoli perygl llifogydd fel y rhestrir isod.

Timau mewnol

- Priffyrdd
- Cynllunio strategol
- Datblygu a rheolaeth adeiladu
- Cynllunio at argyfwng / argyfyngau sifil posibl
- Parciau a chefn gwlad
- Iechyd yr amgylchedd
- Natur a chadwraeth / ecoleg
- Ystadau corfforaethol
- Gwasanaethau cwsmeriaid
- Cynllunio trafnidiaeth

Sefydliadau allanol

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd De-orllewin Cymru
- Gwasanaethau brys
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
- Awdurdodau porthladdoedd
- Darparwyr cyfleustodau
- Partneriaethau, fforymau a grwpiau cymunedol lleol
- Cymdeithasau tai
- Fforwm Llifogydd Cenedlaethol
- Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed–Powys
- Gweithgor Systemau Draenio Cynaliadwy Cymru
- Cynghorau plwyf a thref
- Cynrychiolwyr tir comin

[5] https://naturalresourceswales.gov.uk/flooding/preparing-for-a-flood/?lang=cy

5.3 SUT RYDYM YN RHEOLI LLIFOGYDD YN EIN HARDAL

Mae'r adran hon yn disgrifio sut rydym yn rheoli perygl llifogydd lleol ar draws y sir ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys ein hymagwedd at adrodd ac ymchwiliadau llifogydd, archwiliadau a chynnal a chadw asedau, a rheoli datblygu (polisïau cenedlaethol a lleol) yn ogystal â rhoi caniatâd.

5.3.1 ADRODDIADAU AC YMCHWILIADAU LLIFOGYDD

Mae digwyddiadau llifogydd a adroddir i'r cyngor yn cael eu cofnodi ar gronfa ddata lle gellir cynnwys lleoliad, ffynhonnell, achos, problem ac effaith llifogydd (yn dibynnu ar y manylion sydd ar gael). Lle gwelwn sawl adroddiad yn effeithio ar yr un ardal, neu adroddiadau mynych o lifogydd, ein nod yw ymchwilio ymhellach a phenderfynu a yw unrhyw fesurau lliniaru yn ymarferol ac yn haeddiannol. Defnyddir yr adroddiadau digwyddiad i gefnogi ceisiadau grant lle bo'n berthnasol. Gellir adrodd am ddigwyddiadau trwy ganolfan gyswllt y cyngor (mae manylion ar gael ar ein gwefan).[6]

Pan fydd digwyddiad llifogydd sylweddol, yna bydd ymchwiliad llifogydd ffurfiol o dan adran 19 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yn cael ei gynnal. Gall y trothwy ar gyfer cynnal ymchwiliad adran 19 gael ei osod gan Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol unigol ac ar gyfer Sir Benfro mae wedi'i osod fel a ganlyn:

- Llifogydd i'r tu mewn o 20 eiddo o'r un ffynhonnell llifogydd o fewn yr un ardal ddaearyddol; neu
- Mae seilwaith hanfodol (fel ysbytai, porthladdoedd, neu rannau o'r A40, yr A4076, yr A477 neu'r A478) ar gau oherwydd llifogydd am un awr neu fwy; neu
- Mae cymunedau'n cael eu hynysu, heb fynediad i gerbydau, am 24 awr; neu
- Mae perygl i fywyd dynol.

Mae ymchwiliad llifogydd adran 19 yn ceisio nodi achos llifogydd ac a yw'r awdurdodau rheoli risg perthnasol wedi cyflawni eu dyletswyddau mewn ymateb i hynny. Lle bo'n berthnasol, bydd adroddiad adran 19 hefyd yn gwneud argymhellion ac yn nodi camau gweithredu pellach i leihau'r perygl o lifogydd yn y dyfodol. Mae gan y cyngor ddyletswydd i gyhoeddi canfyddiadau ymchwiliad adran 19. Hyd yn hyn, mae'r cyngor wedi cwblhau un ymchwiliad adran 19 i lifogydd, sef digwyddiad a effeithiodd ar y Cwm, Abergwaun, ym mis Ionawr 2014.

5.3.2 COFNODION A DYNODIAD ASEDAU

Mae gennym gofnod cynhwysfawr o gyrsiau dŵr a seilwaith draenio yn y sir ac rydym wedi nodi'r perygl llifogydd sy'n gysylltiedig â'r asedau hyn yn unol ag adran 21 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Mae'r rhain wedi'u darparu i Cyfoeth Naturiol Cymru ac maent wedi'u rhestru ar y Gronfa Ddata Genedlaethol o Asedau Llifogydd.[7] Mae cynlluniau Systemau Draenio Cynaliadwy newydd,

[6] Preswylydd – Cyngor Sir Penfro

[7] Cyfoeth Naturiol Cymru | Gweld strwythurau amddiffyn llifogydd yn agos i chi (Basdata Asedau Llifogydd Cenedlaethol)

sy'n mynd drwy'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy, hefyd yn cael eu cynnwys yn ein cofnodion.

5.3.3 Cynlluniau cynnal a chadw a gwella

Mae gan ein tîm Cynnal a Chadw Priffyrdd raglen archwilio ar gyfer ein holl asedau cwrs dŵr a draenio. Maent yn cofnodi eu canfyddiadau ar ein system rheoli data asedau ac yn actifadu unrhyw waith cynnal a chadw os bydd canlyniad yr archwiliad yn gofyn am hynny.

Rydym yn tueddu i gwblhau cynlluniau gwella neu atgyweiriadau ar sail ad hoc pan fydd llifogydd yn digwydd, neu pan fo diffygion sylweddol wedi'u nodi o archwiliadau. Enghraifft ddiweddar yw Lower Priory a Havens Head, lle, yn dilyn y llifogydd ym mis Tachwedd 2018 a achosodd lifogydd mewn eiddo preswyl, rydym yn y camau olaf o ddylunio ac adeiladu cwlfert a gollyngfa newydd i helpu i liniaru perygl llifogydd yn yr ardal.

5.3.4 Rheoli datblygiad

Mae rheoli perygl llifogydd sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd sy'n mynd trwy'r broses gynllunio yn cael ei orfodi trwy bolisïau rheoli datblygu sy'n adlewyrchu polisi cenedlaethol (TAN15). Mae'r cyngor yn ystyried gofynion a goblygiadau'r gwaith o ddiwygio TAN15 sydd ar y gweill wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig. Ymgynghorir â'r tîm rheoli perygl llifogydd ar fwyafrif y cynigion.

Mae Atodlen 3 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr bellach yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad newydd dros 100m^2 ymgorffori draeniad cynaliadwy yn unol â'r safonau cenedlaethol. Mae cynlluniau draenio cynaliadwy sydd wedi'u dylunio'n dda yn dynwared prosesau draenio naturiol i reoli perygl llifogydd ac yn lleihau'r pwysau ar gyrsiau dŵr i lawr yr afon neu systemau draenio traddodiadol. Gallant hefyd ddarparu manteision pellach o ran ansawdd dŵr, bioamrywiaeth ac amwynder.

Mae Cyngor Sir Penfro, yn ei rôl fel Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy, yn gyfrifol am gymeradwyaeth dechnegol y cynlluniau draenio cynaliadwy, a'u mabwysiadu a'u cynnal a'u cadw'n barhaus wedyn, lle mae'r cynlluniau'n bodloni amodau perthnasol ar gyfer ardaloedd awdurdodau cynllunio lleol Cyngor Sir Penfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae'r cyngor yn cwblhau'r adolygiadau technegol yn fewnol. Mae gweithredu Atodlen 3 yn cynyddu'r defnydd o ddraenio cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd ledled y sir.

Mae'r cyngor yn croesawu'r defnydd cynyddol o Systemau Draenio Cynaliadwy ond mae'n cydnabod ei fod yn rhoi cyfrifoldeb cynnal a chadw hirdymor ar y cyngor a bydd angen rhoi cynlluniau a gweithdrefnau ar waith i reoli hyn.

Mae'r cyngor hefyd yn rheoleiddio gwaith sy'n effeithio ar gyrsiau dŵr cyffredin ac mae angen cydsyniadau ar gyfer gwaith a allai achosi rhwystr i'r cwrs dŵr.

5.3.5 Ymateb i lifogydd

Mae Uned Cynllunio at Argyfyngau y cyngor yn cydlynu ymateb y cyngor pan fo llifogydd yn cael eu rhagweld neu'n digwydd. Mae'r cyngor yn darparu bagiau tywod os daw ffynhonnell y llifogydd o ased sy'n eiddo i'r cyngor.

Mae'r ymateb wedi'i flaenoriaethu fel a ganlyn:

1. Atal colli bywyd neu anaf difrifol
2. Amddiffyn poblogaethau agored i niwed

3. Diogelu seilwaith allweddol, h.y. is-orsafoedd trydanol, cyflenwad dŵr yfed, priffyrdd allweddol, er mwyn cynnal mynediad i'r gwasanaethau brys
4. Gwarchod cyfleusterau ac adeiladau allweddol yn y gymuned
5. Diogelu eiddo preswyl (blaenoriaeth i bobl agored i niwed)
6. Diogelu eiddo busnes/masnachol

Mae'r cyngor yn annog trigolion a pherchnogion eiddo yn gryf i wneud eu trefniadau a chynlluniau llifogydd eu hunain i ddiogelu eu heiddo gan nad cyfrifoldeb y cyngor yw gwneud hynny.

5.3.6 Cydlynu

Mae'r cyngor yn aelod o Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd De-ddwyrain Cymru, sydd fel arfer yn cyfarfod bob dau i dri mis i rannu profiadau a'r dulliau y mae pob Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn eu mabwysiadu i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Mae'r cyngor yn cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru fel sy'n berthnasol pan fydd llifogydd neu broblemau gyda seilwaith. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyfarfodydd grŵp awdurdodau rheoli risg rheolaidd na phroses o rannu data'n rheolaidd rhwng awdurdodau rheoli risg. Yn flaenorol, roedd proses o rannu data gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth Gorllewin Cymru, i ddeall a choladu galwadau cysylltiedig â llifogydd, ond nid yw hyn wedi digwydd yn ddiweddar.

Mae'r cyngor yn gweithio gyda grwpiau llifogydd cymunedol lleol a wardeniaid llifogydd lle bo modd.

6 AMCANION STRATEGOL

6.1 Amcanion y Strategaeth Genedlaethol

Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi nod trosfwaol o leihau'r perygl i bobl a chymunedau o lifogydd ac erydu arfordirol. Mae'n nodi pum amcan ar gyfer cyflawni'r nod hwn. Crynhoir y rhain yn Ffigur 6-1.



Ffigur 6-1 - Amcanion y Strategaeth Genedlaethol

Ar gyfer y Strategaeth Leol hon, rydym wedi datblygu ein hamcanion strategol ein hunain, sy'n cyd-fynd ag amcanion y Strategaeth Genedlaethol ac yn adlewyrchu ein cyd-destun a'n blaenoriaethau lleol.

6.2 Amcanion yn Ein Hardal

Mae Tabl 6-1 yn crynhoi ein hamcanion lleol a sut maent yn cysylltu ag amcanion cenedlaethol.

Tabl 6-1 - Amcanion y Strategaeth Leol

Amcanion Cyngor Sir Penfro		Disgrifiad	Amcanion cenedlaethol				
			A	B	C	D	E
1	Lleihau nifer y bobl sy'n dod yn agored i risg uchel o lifogydd	Lleihau effaith newid hinsawdd a ffactorau economaidd-gymdeithasol eraill sy'n cynyddu'r risg uchel o lifogydd.	X	X	X	X	
2	Gwella dealltwriaeth o berygl llifogydd lleol yn Sir Benfro a sut y gallai hyn newid yn y dyfodol	Parhau i ddatblygu a gwella sut mae perygl llifogydd yn newid ar draws y sir oherwydd newid hinsawdd er mwyn hysbysu cymunedau, strategaethau ar gyfer y dyfodol, cynlluniau buddsoddi a chynllunio at argyfyngau.	X		X		
3	Gwella parodrwydd, gwytnwch, a'r gwaith o liniaru perygl llifogydd nawr ac yn y dyfodol	Sicrhau gwytnwch ac effeithlonrwydd o fewn yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol nawr ac yn y dyfodol er mwyn gallu paratoi ar gyfer llifogydd ac ymateb iddynt.	X	X			X
4	Galluogi cymunedau a thirfeddianwyr i ddeall, rheoli, paratoi ac ymateb i berygl llifogydd	Codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd presennol ac yn y dyfodol yn Sir Benfro a darparu offer i rymuso cymunedau a thirfeddianwyr i baratoi ar gyfer llifogydd ac ymateb iddynt.		X		X	
5	Mae awdurdodau rheoli risg yn sefydlu ymagwedd gydweithredol a chyfannol at reoli perygl llifogydd ledled Sir Benfro	Sicrhau y ceir y buddion mwyaf posibl o gydweithio ar draws awdurdodau rheoli risg i ddarparu gwelliant ym mhob cynllun a gwaith cynnal a chadw.	X	X			X
6	Sicrhau ymagwedd seiliedig ar risg at benderfyniadau buddsoddi cyfalaf a refeniw	Blaenoriaethu buddsoddiad (mewn cyfalaf a refeniw) i'r cymunedau sydd fwyaf mewn perygl yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.	X	X	X	X	X

7 ARIANNU A BLAENORIAETHU

7.1 Opsiynau Cyllid

Ariennir mesurau i reoli perygl llifogydd lleol o ystod o ffynonellau.

Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu grantiau refeniw a chyfalaf mewn perthynas â gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau rheoli risg i ddatblygu rhaglen fuddsoddi pump i ddeng mlynedd o gynlluniau cyfalaf rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn y dyfodol, wedi'i chyfiawnhau yn unol â'r canllawiau achos busnes ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.[8]

Dyma'r prif ffynonellau cyllid sydd ar gael i'r cyngor i gefnogi gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Cyllid refeniw Cyngor Sir Penfro – Cyllid craidd ar gyfer cyflogau staff a gweithgareddau o ddydd i ddydd, asesiadau strategol a chynllunio (fel y Strategaeth Leol hon). Mae cyllid refeniw hefyd yn cynnwys gweithgareddau cynnal a chadw rheolaidd ac ymateb i lifogydd.

Cyllid cyfalaf Cyngor Sir Penfro – Ar gael o bosibl i ariannu cynlluniau gwella newydd neu gostau adnewyddu sylweddol. Byddai cyllid cyfalaf Cyngor Sir Penfro hefyd yn cael ei ddefnyddio fel arfer i ddarparu arian cyfatebol o dan grantiau cyfalaf Llywodraeth Cymru.

Grant refeniw rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol Llywodraeth Cymru – Mae'r grant hwn yn cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol a'u dyletswyddau o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr nad ydynt yn gymwys ar gyfer grantiau cyfalaf. Gall y grant dalu costau staff a gweithgareddau eraill fel codi ymwybyddiaeth gymunedol, arolygon a gwelliannau i gronfeydd data.

Grantiau cyfalaf rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol Llywodraeth Cymru – Mae'r grant hwn yn cefnogi gwaith i ddatblygu, dylunio a gweithredu cynlluniau lliniaru llifogydd newydd neu waith cynnal a chadw mawr ar asedau presennol. Mae'r grantiau fel arfer yn gofyn am elfen o arian cyfatebol. Rhaid i gynlluniau arfaethedig fynd trwy broses achos busnes i ddangos bod y cynllun a ffefrir wedi'i ddewis gan roi ystyriaeth briodol i ddewisiadau eraill a'i fod yn darparu gwerth am arian. Gall y broses hon gymryd nifer o flynyddoedd. Mae ceisiadau am gyllid yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru, sy'n blaenoriaethu ac yn dyrannu cyllid gan ystyried ceisiadau a dderbynnir gan bob awdurdod rheoli risg ledled Cymru.

Grant Gwaith Graddfa Fach Llywodraeth Cymru – Mae hwn yn cefnogi awdurdodau lleol i wneud gwaith llai, mesurau cydnerthedd ar raddfa gymunedol, rheoli llifogydd yn naturiol a gwaith cynnal a chadw hanfodol trwy broses symlach. Mae cyllid ar gael yn flynyddol ar gyfer gwaith hyd at £200,000 (2022/23) ac mae wedi bod yn llwyddiannus o ran ysgogi darpariaeth a lleihau risg, gyda £4.3 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer cynlluniau o'r fath ledled Cymru yn 2020/21.

[8] Llywodraeth Cymru, Mehefin 2019, Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol: canllawiau achos busnes

Cronfa Ffyrdd Cydnerth Llywodraeth Cymru – Mae hon ar gael ar gyfer prosiectau sy'n lleihau'r tarfu ar y rhwydwaith priffyrdd oherwydd tywydd garw a llifogydd, yn enwedig ar y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus. Y bwriad yw gwella gwytnwch ac addasu i newid yn yr hinsawdd.

Cronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru – Mae hon yn cefnogi'r gwaith o gyflawni strategaeth drafnidiaeth Cymru, sydd, ymhlith pethau eraill, yn ceisio darparu system drafnidiaeth gynaliadwy sy'n addasu i newid hinsawdd ac yn lliniaru ar ei gyfer.

Ardoll seilwaith cymunedol – Codir yr ardoll seilwaith cymunedol ar y mwyafrif o ddatblygiadau newydd dros 100m^2, a gedwir mewn cronfa ganolog yn y cyngor ac sydd ar gael i adrannau'r cyngor wneud cais amdani, er mwyn cyflawni gwelliannau seilwaith, a all gynnwys gwelliannau i'r rhwydwaith draenio strategol.

Cyfraniadau datblygwyr (taliadau adran 106) – Weithiau mae angen y rhain gan ddatblygwyr a gallant fod ar ffurf cyfraniadau ariannol tuag at welliannau seilwaith neu ofyniad bod y datblygwr yn gwneud y gwaith ei hun. Yn wahanol i'r ardoll seilwaith cymunedol, mae'n rhaid i'r gwelliannau hyn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith sydd ei angen i wrthbwyso effeithiau'r datblygiad a'i wneud yn dderbyniol yn nhermau cynllunio.

Cyfraniadau lleol – Gall hyn gynnwys cyfraniadau gan unigolion neu sefydliadau preifat neu grwpiau cymunedol. Anogir gweithio mewn partneriaeth a chyfraniadau partneriaeth o dan delerau grantiau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol Llywodraeth Cymru.

7.2 SUT RYDYM YN BLAENORIAETHU MESURAU A CHAMAU GWEITHREDU

Nid ydym wedi blaenoriaethu ein mesurau a'n gweithredoedd yn benodol, na'n hardaloedd cymunedol, gan fod risg yn gyffredinol isel ar draws y sir.

Mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu cynlluniau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol sy'n lleihau'r risg i gartrefi yn bennaf. Gall busnesau ac adeiladau cyhoeddus hefyd elwa ar gynlluniau, yn enwedig y rhai sy'n lleihau'r risg i gymysgedd o fathau o ddatblygiadau, megis cartrefi a siopau ar hyd stryd fawr neu ganolfan ardal leol. Mae cynlluniau sydd ond yn lleihau risg i fusnesau yn parhau'n gymwys ond ni ddylid eu blaenoriaethu dros gynlluniau sy'n lleihau'r risg i gartrefi. Nid oes cyllid ar gael i alluogi datblygiad newydd. Anogir awdurdodau rheoli risg sy'n gwneud cais am gyllid i nodi buddion ehangach, megis cyfleoedd adfywio, gwelliannau i gynefinoedd/bioamrywiaeth, iechyd meddwl, neu fuddion hamdden. Anogir ystyriaeth gynnar o alinio buddion lluosog i sicrhau cyllid ehangach. Lle nodir buddion sylweddol i drydydd partïon, disgwylir y bydd awdurdodau rheoli risg yn gweithio'n fewnol ac yn allanol (er enghraifft, gyda darparwyr seilwaith, cyfleustodau, diwydiant a masnach) i nodi a sicrhau cyfraniadau cyllid partneriaeth priodol gan y rhai sy'n elwa o gynllun.

Mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu cyllid i gynlluniau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn seiliedig ar yr ystyriaethau canlynol:

- Safle ar y Gofrestr Cymunedau mewn Perygl
- Manylion digwyddiadau llifogydd blaenorol
- Eiddo sy'n elwa (eiddo presennol – ni chefnogir datblygiadau newydd)
- Cymhareb budd i gost
- Cyfleoedd ar gyfer buddion ehangach (e.e. amwynder cyhoeddus neu fuddion hamdden a bioamrywiaeth)
- Cyfleoedd ar gyfer cyllid ehangach (e.e. gweithio gyda chyfleustodau neu ddarparwyr seilwaith)

Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo’r defnydd o set ddata’r Gofrestr Cymunedau mewn Perygl fel ffordd gyson o raddio ac ystyried perygl llifogydd o bob ffynhonnell, ond mae hefyd yn cydnabod mai un dull yn unig ydyw a bod gwybodaeth sydd ar gael yn lleol am ddigwyddiadau llifogydd yn y gorffennol yr un mor bwysig. Mae cyllid ar gael ar hyn o bryd i leihau risg i gartrefi a busnesau presennol; nid yw ar gael ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol na phreswylfeydd dros dro. Byddwn yn parhau i ddefnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu cynlluniau ar sail risg a buddion lluosog.

8 MESURAU LLIFOGYDD

8.1 CYFLWYNIAD I FESURAU LLIFOGYDD

Bydd yr amcanion strategol a amlinellir yn Adran **Error! Reference source not found.** yn cael eu cyflawni trwy weithredu ystod eang o fesurau.

Mae'r mesurau wedi'u grwpio yn ôl y themâu rheoli llifogydd a ganlyn:

- Atal
- Amddiffyn
- Parodrwydd
- Adfer ac adolygu

Cyflwynir y mesurau yn yr adrannau canlynol, wedi'u categoreiddio yn ôl y thema reoli.

Mae pob mesur wedi cael amserlen a chost ddangosol i'w weithredu neu ei gyflawni. Mae'r rhain wedi'u bandio fel a ganlyn:

Amserlenni

- Cylchol – Gweithgareddau parhaus neu a ailadroddir yn rheolaidd drwy gydol oes y Strategaeth Leol
- Byr (1-2 flynedd) – Bwriedir eu cyflawni o fewn cyfnod y cynllun gweithredu (dwy flynedd)
- Canolig (2-5 mlynedd) – Bwriedir eu cyflawni o fewn oes y strategaeth (chwe blynedd)
- Hir (5+ mlynedd) – Bwriedir eu cyflawni ar ôl oes y strategaeth hon

Costau

- Adnoddau presennol – Eisoes wedi'u cynnwys o fewn cyllid yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol
- Cost isel iawn (<£10k) – Cost leiaf
- Cost isel (£10k-£75k) – Yn addas ar gyfer cyllid refeniw ac astudiaethau dichonoldeb
- Cost ganolig (£75k-£200k) – O fewn terfyn y cynllun graddfa fach
- Cost uchel (£200k-£1m) – Yn addas ar gyfer cynlluniau canolig sy'n mynd y tu hwnt i'r terfyn ariannu ar gyfer cynlluniau graddfa fach
- Cost uchel iawn (£500k+) – Cynlluniau ar raddfa fawr

Mae'r holl fesurau a chamau gweithredu dilynol yn amodol ar gyllid a chapasiti.

8.2 MESURAU PARODRWYDD

Mesur 1	Cynnal cofrestr digwyddiadau effeithiol
Disgrifiad	Mae gan Gyngor Sir Penfro gofrestr digwyddiadau llifogydd lle mae digwyddiadau a adroddir gan y cyhoedd a staff y cyngor yn cael eu cofnodi. Mae'r wybodaeth gyfredol yn amrywio o ran ansawdd a chysondeb. Nod y mesur hwn yw datblygu (cyn belled ag y bo modd) gofrestr digwyddiadau gyson a chynhwysfawr, gan gynnwys adroddiadau gan sefydliadau eraill, megis Dŵr Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth Gorllewin Cymru, y gellir ei defnyddio i wella dealltwriaeth o berygl llifogydd ledled Sir Benfro a llywio

	penderfyniadau buddsoddi. Mae angen i'r gofrestr hon hefyd gael protocol diweddaru a pherchnogaeth o fewn Cyngor Sir Penfro.
Buddion, gan gynnwys buddion lluosog/ehangach	- Rhestr gynhwysfawr a hygyrch o'r holl ddigwyddiadau llifogydd yn y sir - Gwneud penderfyniadau gwybodus ar gyfer buddsoddiadau wedi'u targedu
Amserlen ddangosol	Cylchol
Cost ddangosol	Cost isel (<£10k)
Amcanion cysylltiedig	1, 2, 3, 5, 6
Opsiwn/opsiynau ariannu	Refeniw
Partneriaid cyflawni	Dŵr Cymru Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru
Math(au) o reoli llifogydd	Parodrwydd

Mesur 2	**Ymchwilio i ddigwyddiadau llifogydd**
Disgrifiad	Mae gan Gyngor Sir Penfro ddyletswydd i ymchwilio i'r holl lifogydd yn ei ardal i'r graddau yr ystyrir bod hyn yn angenrheidiol neu'n briodol. Mae'r ymchwiliadau hyn yn helpu i nodi achos a mecanweithiau llifogydd a chamau ataliol posibl, a phartïon cyfrifol (lle bo'n berthnasol). Pan fydd canlyniadau'r digwyddiad yn fwy na throthwy penodol, bydd y cyngor yn cwblhau ymchwiliad llifogydd adran 19 ffurfiol, fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, a fydd yn cael ei gyhoeddi. Rhaid i'r ymchwiliad nodi pa awdurdodau rheoli risg sydd â swyddogaethau rheoli perygl llifogydd perthnasol ac a ydynt wedi arfer y swyddogaethau hynny mewn ymateb i'r digwyddiad. Mae Cyngor Sir Penfro wedi diffinio'r trothwy canlynol ar gyfer ymchwiliadau adran 19 (yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru): - Llifogydd i'r tu mewn i 20 eiddo o fewn yr un ardal ddaearyddol; neu - Mae seilwaith hanfodol (fel ysbytai, porthladdoedd, neu rannau o'r A40, yr A4076, yr A477 neu'r A478) ar gau oherwydd llifogydd am un awr neu fwy; neu - Mae cymunedau wedi eu hynysu, heb fynediad i gerbydau, am 24 awr; neu - Perygl i fywyd Bydd digwyddiadau nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad adran 19 yn dal yn destun ymchwiliad i'r achos, a bydd y manylion yn cael eu nodi i lywio'r gofrestr digwyddiadau llifogydd a buddsoddiadau yn y dyfodol. Mae ymchwiliadau adran 19 yn cyfrannu fel tystiolaeth tuag at wneud cais am grantiau cynlluniau graddfa fach.

Buddion, gan gynnwys buddion lluosog/ehangach	- Galluogi dealltwriaeth glir o fannau lle ceir perygl llifogydd mawr - Galluogi buddsoddiad wedi'i dargedu ar gyfer lliniaru llifogydd
Amserlen ddangosol	Cylchol
Cost ddangosol	Cost isel (£10k-£75k)
Amcanion cysylltiedig	1, 2, 3, 5, 6
Opsiwn/opsiynau ariannu	Statudol, Refeniw
Partneriaid cyflawni	
Math(au) o reoli llifogydd	Parodrwydd

Mesur 3	**Dealltwriaeth o risg yn y dyfodol**
Disgrifiad	Mae perygl llifogydd yn ganlyniad i gyfuniad o ffactorau. Mae angen i Gyngor Sir Penfro ddeall sut y gall risg newid yn y dyfodol, ac wedi hynny sut y gallai rheolaeth y risg hon newid. I wneud hyn, dylai'r cyngor gynnal asesiadau, gan gynnwys newid hinsawdd, cyflwr asedau, datblygiad a thwf, newid yn y boblogaeth, a thargedau amgylcheddol.
Buddion, gan gynnwys buddion lluosog/ehangach	- Gwell dealltwriaeth o risg, gan alluogi gwell ymateb, cyfathrebu ac addysg - Targedu buddsoddiadau'n well
Amserlen ddangosol	Byr (1-2 flynedd)
Cost ddangosol	Cost isel (£10k-£75k)
Amcanion cysylltiedig	1, 2, 3, 5, 6
Opsiwn/opsiynau ariannu	Refeniw, Cyfalaf
Partneriaid cyflawni	Cyfoeth Naturiol Cymru
Math(au) o reoli llifogydd	Parodrwydd

Mesur 4	**Ymateb brys**
Disgrifiad	Rhybuddio am lifogydd, ac ymateb iddynt, yn effeithiol i gynyddu'r gallu i wrthsefyll llifogydd. Mae gwaith ymateb i ddigwyddiadau yn cael ei arwain gan y tîm cynllunio at argyfyngau ond mae llawer o dimau o fewn Cyngor Sir Penfro yn gyfrifol am baratoi ar gyfer digwyddiadau ac ymateb iddynt.
Buddion, gan gynnwys buddion lluosog/ehangach	- Ymateb effeithiol a chydgysylltiedig i lifogydd - Cynllun strwythuredig i gydweithio â phartneriaid proffesiynol - Ymatebwyr parod

Amserlen ddangosol	Cylchol
Cost ddangosol	Adnoddau presennol
Amcanion cysylltiedig	3
Opsiwn/opsiynau ariannu	Refeniw
Partneriaid cyflawni	Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Cyfoeth Naturiol Cymru Awdurdodau rheoli risg Fframwaith Gwydnwch Llywodraeth Cymru
Math(au) o reoli llifogydd	Parodrwydd

Mesur 5	**Adnoddau a gallu'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol**
Disgrifiad	Bydd cyngor cydnerth sydd ag adnoddau llawn yn galluogi cyflawni'r strategaeth, rhwymedigaethau statudol a gweithgareddau dyheadol yn effeithlon ac effeithiol. Bydd hefyd yn darparu gwydnwch ychwanegol i baratoi ar gyfer llifogydd yn y sir, ymateb iddynt ac adfer ar eu holau.
Buddion, gan gynnwys buddion lluosog/ehangach	- Timau gwydn a gwybodus ar draws y cyngor sy'n gweithio gyda'i gilydd i leihau perygl llifogydd ar draws y sir
Amserlen ddangosol	Canolig (2-5 mlynedd)
Cost ddangosol	Cost isel (£10k-£75k)
Amcanion cysylltiedig	1, 2, 3, 4, 5, 6
Opsiwn/opsiynau ariannu	Refeniw
Partneriaid cyflawni	
Math(au) o reoli llifogydd	Parodrwydd

Mesur 6	**Mae cymunedau'n deall y perygl llifogydd i'w heiddo a sut i leihau'r effaith yn gorfforol ac yn seicolegol**
Disgrifiad	Mae gan awdurdodau rheoli risg ddyletswyddau statudol i rybuddio a hysbysu'r cyhoedd ynghylch llifogydd. Fodd bynnag, mae gan breswylwyr a pherchnogion eiddo hefyd gyfrifoldeb i amddiffyn eu hunain. Mae pob digwyddiad llifogydd yn amlygu bod llawer o drigolion yn disgwyl i'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol fynd y tu hwnt i'w ddyletswydd statudol i'w hamddiffyn, yn hytrach na phreswylwyr yn cymryd eu mesurau eu hunain. Mae cyfle i weithio gydag awdurdodau rheoli risg eraill, Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r camau y gallant eu cymryd i leihau effaith llifogydd ar eu heiddo.

Buddion, gan gynnwys buddion lluosog/ehangach	- Annog rheolaeth ragweithiol ar berygl llifogydd ar lefel gymunedol ac unigol - Lleihau effeithiau corfforol a seicolegol ar gymunedau
Amserlen ddangosol	Canolig (2-5 mlynedd)
Cost ddangosol	Cost isel (£10k-£75k)
Amcanion cysylltiedig	1, 2, 3, 4
Opsiwn/opsiynau ariannu	Refeniw
Partneriaid cyflawni	
Math(au) o reoli llifogydd	Parodrwydd

8.3 MESURAU ATAL

Mesur 7	Datblygiadau
Disgrifiad	Mae gan Sir Benfro ddau awdurdod cynllunio lleol, sef Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Fel y cyfryw, mae dau Gynllun Datblygu Lleol. Mabwysiadwyd ail Gynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gyda dyddiad gorffen o 2031, ym mis Medi 2020. Canlyniad allweddol o'r Cynllun Datblygu Lleol hwn yw (8) Dim datblygiadau hynod agored i niwed mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd nawr ac yn y tymor hir a dim datblygiadau sydd ag effeithiau negyddol mewn mannau eraill. Mae gan y cynllun mabwysiedig presennol ar gyfer Cyngor Sir Penfro (2013) bolisi datblygu cyffredinol (GN.1) lle bydd datblygiad yn cael ei ganiatáu lle na fyddai'n achosi neu'n arwain at niwed annerbyniol i iechyd a diogelwch oherwydd llifogydd. Mae'r ail Gynllun Datblygu Lleol wrthi'n cael ei ddatblygu. Nid yw Cynllun Adneuo 1 (2020) ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2 yn cael ei symud ymlaen ond rhagwelir y bydd Cynllun Adneuo 2 yn ffocws ar gyfer ymgynghoriad yn hydref 2024. Dylai pob datblygiad arfaethedig fod yn gynaliadwy yn unol â pholisi cenedlaethol a lleol. Dylid hyrwyddo ymgynghori rhagweithiol gan ddatblygwyr â'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol i ystyried perygl llifogydd yn ystod camau cynnar yr uwchgynllunio a sicrhau y cedwir at ofynion y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy. Dylai'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol hefyd ystyried cyfrannu at ganllawiau cynllunio atodol posibl er mwyn helpu i arwain datblygiadau llai tuag at well dyraniad o le ar gyfer rheoli perygl llifogydd a bioamrywiaeth.
Buddion, gan gynnwys buddion lluosog/ehangach	- Datblygiadau'n cael eu cyfeirio i ffwrdd o ardaloedd lle ceir perygl - Effeithlonrwydd yn y broses gynllunio trwy ymgynghori'n gynnar â datblygwyr
Amserlen ddangosol	Byr (1-2 flynedd)
Cost ddangosol	Adnoddau presennol

Amcanion cysylltiedig	1, 5
Opsiwn/opsiynau ariannu	Statudol, Refeniw
Partneriaid cyflawni	Awdurdodau cynllunio lleol
Math(au) o reoli llifogydd	Atal

Mesur 8	**Cyflawni swyddogaeth Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy, gan gynnwys gorfodi**
Disgrifiad	Mae gan Gyngor Sir Penfro ddyletswydd o dan adran 3 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr i weithredu fel y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy, gan gymeradwyo, mabwysiadu a chynnal systemau draenio cynaliadwy ar gyfer yr awdurdodau cynllunio lleol. Mae'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy yn rôl ddylanwadol o ran rheoli all-lifoedd o safleoedd datblygu arfaethedig drwy'r mathau o Systemau Draenio Cynaliadwy a gymeradwywyd i'w defnyddio. Mae lle i weithio integredig rhwng yr awdurdodau cynllunio lleol a'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy wrth ystyried y perygl llifogydd i ddatblygiad ac ohono. Gellir casglu hyn drwy ddatblygu canllawiau cynllunio atodol a rhannu gwybodaeth yn well rhwng y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy a'r awdurdodau cynllunio lleol ar y cam ymgeisio.
Buddion, gan gynnwys buddion lluosog/ehangach	- Llai o bobl mewn perygl o lifogydd - Datblygu a draenio cynaliadwy yn caniatáu datblygiadau ychwanegol
Amserlen ddangosol	Canolig (2-5 mlynedd)
Cost ddangosol	Adnoddau presennol
Amcanion cysylltiedig	1, 5
Opsiwn/opsiynau ariannu	Statudol, Refeniw
Partneriaid cyflawni	Awdurdodau cynllunio lleol
Math(au) o reoli llifogydd	Atal

Mesur 9	**Datblygu cynlluniau cynnal a chadw / rheoli asedau**
Disgrifiad	O dan adran 21 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, mae'n ofynnol i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol gadw cofrestr a chofnod o'r holl adeileddau a nodweddion y rhagwelir y byddant yn cael effaith sylweddol ar berygl llifogydd yn yr ardal. Mae'r gofrestr asedau at ddefnydd y cyhoedd ac mae'r cofnod asedau i'w ddefnyddio gan awdurdodau rheoli risg. Bydd y cyngor yn defnyddio hanes llifogydd, lefel y bygythiad a modelu llifogydd lle bo'n briodol i bennu'r asedau hyn. Bydd y cofnod asedau yn parhau i gael ei ddiweddaru ac yn defnyddio cydsyniadau Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy a chyrsiau dŵr

	cyffredin yn ogystal ag ymchwiliadau i lifogydd i gynnal y gofrestr. Bydd hyn yn galluogi gwaith paratoi wedi'i dargedu yn ystod digwyddiad llifogydd a ragwelir.
Buddion, gan gynnwys buddion lluosog/ehangach	- Yn caniatáu ar gyfer buddsoddiadau wedi'u targedu - Parodrwydd ar gyfer digwyddiadau llifogydd
Amserlen ddangosol	Canolig (2-5 mlynedd)
Cost ddangosol	Adnoddau presennol
Amcanion cysylltiedig	1, 3, 6
Opsiwn/opsiynau ariannu	Refeniw
Partneriaid cyflawni	
Math(au) o reoli llifogydd	Atal

Mesur 10	**Hyrwyddo atebion ar sail natur o fewn unrhyw gynlluniau neu waith uwchraddio newydd**
Disgrifiad	Mae'n debygol y bydd angen mwy o ddefnydd o reoli llifogydd yn naturiol / atebion ar sail natur i reoli effeithiau newid hinsawdd a chefnogi cynlluniau/targedau eraill. Dylid ystyried y dull hwn fel rhagosodiad ar gyfer pob cynllun ac annog datblygwyr i ymgorffori gwlyptiroedd ac ati.
Buddion, gan gynnwys buddion lluosog/ehangach	- Gwella ecoleg a bioamrywiaeth - Lleihad mewn perygl llifogydd - Budd amwynder i gymunedau lleol
Amserlen ddangosol	Cylchol
Cost ddangosol	Cost isel (£10k-£75k)
Amcanion cysylltiedig	1, 6
Opsiwn/opsiynau ariannu	Refeniw, Cyfalaf (gan gynnwys cynlluniau bach)
Partneriaid cyflawni	
Math(au) o reoli llifogydd	Atal

Mesur 11	**Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau rheoli risg i greu Sir Benfro wydn**
Disgrifiad	Bydd awdurdodau rheoli risg yn gweithio gyda'i gilydd yn meithrin amgylchedd gwaith cydweithredol ymhlith rhanddeiliaid a all gefnogi rheoli perygl llifogydd.
Buddion, gan gynnwys buddion lluosog/ehangach	- Bydd gweithio ar y cyd yn darparu mwy o effeithlonrwydd wrth reoli perygl llifogydd ac yn osgoi dyblygu ymdrech

	- Bydd gan yr holl randdeiliaid ddealltwriaeth well o berygl llifogydd ar draws y sir a chylchoedd gwaith awdurdodau rheoli risg - Bydd perthnasoedd ar draws awdurdodau rheoli risg yn cael eu cryfhau - Mae rhanddeiliaid yn debygol o elwa ar fuddion lluosog a gyflwynir trwy brosiectau arloesol
Amserlen ddangosol	Canolig (2-5 mlynedd)
Cost ddangosol	Cost isel (£10k-£75k)
Amcanion cysylltiedig	1, 2, 3, 4, 5, 6
Opsiwn/opsiynau ariannu	Refeniw
Partneriaid cyflawni	Pob awdurdod rheoli risg
Math(au) o reoli llifogydd	Atal

Mesur 12	**Mae tirfeddianwyr yn deall eu rhwymedigaethau cyfreithiol a'u hawliau ar hyd glan yr afon**
Disgrifiad	Mae gan berchnogion tir sydd â chyrsiau dŵr neu gwlfertau wedi'u llwybro trwy eu tir hawliau a chyfrifoldebau y mae'n rhaid iddynt gadw atynt. Bydd yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn ymgysylltu â pherchnogion glan yr afon, a'u haddysgu, i godi ymwybyddiaeth, sefydlu perthnasoedd, a sicrhau bod cyfrifoldebau'n cael eu cyflawni.
Buddion, gan gynnwys buddion lluosog/ehangach	- Gwell ymwybyddiaeth o hawliau a chyfrifoldebau wrth berchen ar lannau afon - Lleihad mewn perygl llifogydd lle mae asedau glan yr afon yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda - Defnydd o bwerau gorfodi ataliol i leihau'r baich ar Gyngor Sir Penfro
Amserlen ddangosol	Canolig (2-5 mlynedd)
Cost ddangosol	Cost isel (£10k-£75k)
Amcanion cysylltiedig	1, 3, 4
Opsiwn/opsiynau ariannu	Refeniw
Partneriaid cyflawni	
Math(au) o reoli llifogydd	Atal

Mesur 13	**Gwneud y mwyaf o gyfleoedd trawsddisgyblaethol**
Disgrifiad	Ymgysylltu â thimau Cyngor Sir Penfro a rhanddeiliaid eraill i geisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddarparu gwelliannau a mwy o wytnwch lle bo modd, e.e. ôl-osod Systemau Draenio Cynaliadwy /

	strydluniau gwydn, mesurau i alluogi eiddo i wrthsefyll llifogydd, llai o ddifrod i ffyrdd.
Buddion, gan gynnwys buddion lluosog/ehangach	- Manteision ychwanegol a gwell rheolaeth ar berygl llifogydd trwy gynlluniau anuniongyrchol - Effeithlonrwydd wrth weinyddu'r cynllun, gan ddileu'r angen am astudiaethau dichonoldeb lluosog a cheisiadau am gyllid
Amserlen ddangosol	Byr (1-2 flynedd)
Cost ddangosol	Cost isel (£10k-£75k)
Amcanion cysylltiedig	1, 2, 3, 4, 5, 6
Opsiwn/opsiynau ariannu	Refeniw, Cyfalaf (gan gynnwys cynlluniau bach)
Partneriaid cyflawni	
Math(au) o reoli llifogydd	Atal

8.4 MESURAU DIOGELU

Mesur 14	**Penderfyniadau buddsoddi**
Disgrifiad	Dylai penderfyniadau buddsoddi fod yn seiliedig ar risg ac ystyried buddsoddiadau refeniw a chyfalaf, gan gynnwys cynnal a chadw a chynlluniau newydd neu welliannau i gynlluniau presennol.
Buddion, gan gynnwys buddion lluosog/ehangach	- Buddsoddiadau wedi'u targedu at y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf - Lleihau nifer y bobl sydd mewn perygl mawr o lifogydd
Amserlen ddangosol	Canolig (2-5 mlynedd)
Cost ddangosol	Cost ganolig (£75k-£200k)
Amcanion cysylltiedig	1, 5, 6
Opsiwn/opsiynau ariannu	Refeniw, Cyfalaf (gan gynnwys cynlluniau bach)
Partneriaid cyflawni	
Math(au) o reoli llifogydd	Amddiffyn
Arall/eraill	

Mesur 15	**Poblogaeth carafannau/twristiaid**
Disgrifiad	Mae twristiaeth yn rhan allweddol o economi Sir Benfro, gydag amcangyfrif o £585 miliwn o wariant gan ymwelwyr y flwyddyn. Mae llawer o gartrefi yn y sir yn cael eu gosod ar gyfer gwyliau ac mae yna nifer o barciau gwyliau a meysydd gwersylla a charafannau.

	Ymhellach, mae rhai o drigolion Sir Benfro yn byw yn barhaol ar safleoedd carafannau sydd mewn perygl o lifogydd a bydd y perygl hwn yn cynyddu yn y dyfodol. Mae blaenoriaethau cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau llifogydd wedi eu hanelu at breswylfeydd/eiddo parhaol ar hyn o bryd, ond gellid cynnal ymchwiliad i godi arian cyfalaf i ddiogelu safleoedd carafannau preswyl sydd mewn perygl o lifogydd.
Buddion, gan gynnwys buddion lluosog/ehangach	- Codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd nawr ac yn y dyfodol i berchnogion parciau gwyliau a gosodiadau gwyliau er mwyn eu galluogi i fod yn fwy parod - Lleihau perygl a pheryglon llifogydd i safleoedd carafannau preswyl
Amserlen ddangosol	Canolig (2-5 mlynedd)
Cost ddangosol	Cost isel (£10k-£75k)
Amcanion cysylltiedig	1, 3, 6
Opsiwn/opsiynau ariannu	Refeniw, Cyfalaf (gan gynnwys cynlluniau bach)
Partneriaid cyflawni	
Math(au) o reoli llifogydd	Amddiffyn

8.5 MESURAU ADFER

Mesur 16	**Adfer ar ôl digwyddiadau**
Disgrifiad	Gall adfer ar ôl llifogydd gymryd amser hir, ac effeithio ar bobl yn gorfforol, yn economaidd ac yn seicolegol. Mae llawer o dimau ar draws yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ac yn y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth ehangach yn ymwneud ag adfer, sy'n eu tynnu oddi wrth eu dyletswyddau arferol. Gallai sicrhau bod yr offer a gwybodaeth ddiweddaraf ar gael yn hawdd i drigolion yr effeithiwyd arnynt gefnogi pobl i wella'n gyflymach ar ôl llifogydd.
Buddion, gan gynnwys buddion lluosog/ehangach	- Mae cymunedau wedi'u paratoi'n well ar gyfer llifogydd ac o ganlyniad gallant adfer yn gynt
Amserlen ddangosol	Byr (1-2 flynedd)
Cost ddangosol	Cost isel iawn (£10k)
Amcanion cysylltiedig	3
Opsiwn/opsiynau ariannu	Refeniw
Partneriaid cyflawni	Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Awdurdodau rheoli risg
Math(au) o reoli llifogydd	Adfer ac adolygu

9 GWEITHREDOEDD LLIFOGYDD

9.1 CYFLWYNIAD I WEITHREDOEDD LLIFOGYDD

Mae camau gweithredu llifogydd yn dasgau, yn weithgareddau neu'n fentrau penodol yr ydym yn eu cynllunio a'u holrhain a byddant yn ein galluogi i gyflawni ein mesurau a restrir yn adran 8. Roedd angen cynlluniau gweithredu o'r blaen yn y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a gafodd eu mandadu gan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009, sydd bellach wedi'u dirymu. Gan fod y Strategaeth Leol a'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd bellach wedi'u huno yn y diweddariad hwn o'r Strategaeth Leol, mae unrhyw gynlluniau gweithredu blaenorol wedi eu disodli.

Rhoddir terfynau amser i'r camau gweithredu a chânt eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

9.2 EIN CYNLLUN GWEITHREDU LLIFOGYDD

Mae Cynllun Gweithredu Llifogydd Cyngor Sir Penfro wedi'i drefnu ar sail y mesurau a'r themâu rheoli llifogydd. Mae rhai Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn dewis eu trefnu yn ôl dalgylch neu ardal perygl llifogydd, ond ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o'n camau gweithredu'n berthnasol ar draws y sir gyfan, felly mae grwpio yn ôl themâu rheoli llifogydd yn cael ei ffafrio. Rydym wedi rhoi cyfnodau amser a chost fras i bob cam gweithredu yn unol â'r bandiau a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer y mesurau yn adran 8.

Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei olrhain a'i ddiweddaru gan ddefnyddio'r 'golofn statws'. Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei ddiweddaru bob dwy flynedd, sy'n gylch byrrach na'r diweddariad o'r strategaeth leol, felly mae wedi'i ddarparu fel atodiad ar wahân i'r ddogfen strategaeth hon.Mae'r cynllun gweithredu llifogydd i'w weld yn Atodiad C.

10 ASESIADAU AMGYLCHEDDOL

Mae asesiadau wedi'u cynnal ochr yn ochr â datblygu'r Strategaeth Leol hon i sicrhau bod yr amcanion, y mesurau a'r camau gweithredu a gyflwynir yn ystyried yr amgylchedd yn ardal yr awdurdod lleol, gan gynnwys dynodiadau pwysig.

10.1 ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL

Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ffordd o asesu a monitro effeithiau tebygol (cadarnhaol a negyddol) cynlluniau, rhaglenni a strategaethau ar yr amgylchedd. Mae'n berthnasol ar lefel y cynllun neu strategaeth (h.y. Strategaeth Leol) sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer prosiectau datblygu yn y dyfodol.

Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ofyniad cyfreithiol i gyd-fynd â Strategaeth Leol. Mae asesiadau o'r fath yn helpu i alluogi gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw er budd llunwyr cynlluniau a'r gymuned ehangach yng Nghymru.

Datblygwyd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ochr yn ochr â'r strategaeth leol hon ac mae wedi'i gynnwys mewn adroddiad ar wahân.

Crynodeb byr o'r canlyniadau

11 MONITRO CYNNYDD

11.1 SUT RYDYM YN MESUR CYNNYDD

Bydd cynnydd ein darpariaeth o'r Strategaeth Leol yn cael ei fesur yn erbyn y camau gweithredu llifogydd a ddatblygwyd i gyflawni'r mesurau a'r amcanion a restrir yn y strategaeth. Bydd cynnydd ar y camau gweithredu yn cael ei fesur yn ôl cyflawniad y cam gweithredu a llwyddiant yr hyn a gyflawnir. Bydd costau ac amserlenni gwirioneddol amcangyfrifedig yn cael eu cofnodi i lywio strategaethau yn y dyfodol.

11.2 PA MOR RHEOLAIDD RYDYM YN MONITRO CYNNYDD

Bydd y Strategaeth Leol yn cael ei diweddaru bob chwe blynedd, yn unol â'r Strategaeth Genedlaethol, sydd i'w diweddaru yn 2030 os nad oes unrhyw newidiadau polisi mawr yn y cyfamser.

Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei adolygu'n flynyddol, gydag adroddiad byr yn cael ei gyhoeddi i gadarnhau cynnydd. Bydd y cynllun gweithredu'n cael ei ddiweddaru bob dwy flynedd, i adlewyrchu'r camau gweithredu a gwblhawyd ac i nodi unrhyw gamau gweithredu newydd sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion a'r mesurau a nodir yn y Strategaeth Leol.

Atodiad A

PERYGL LLIFOGYDD LLEOL

#

1 HWLFFORDD

Ffynhonnell	Afon			Cyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb			Arfordirol		
Derbynnydd risg	**Uchel**	**Canolig**	**Isel**	**Uchel**	**Canolig**	**Isel**	**Uchel**	**Canolig**	**Isel**
Eiddo preswyl mewn perygl o lifogydd	19	33	90	12	29	159	1	5	7
Gwasanaethau hanfodol (nifer)	6	7	10	1	2	7	0	3	4
Eiddo dibreswyl (nifer)	90	118	155	21	45	74	8	37	48
Prif ffyrdd / cefnffyrdd (km)	4.1	5.4	9.3	0.9	1.8	6.2	0.6	2.2	2.8
Prif reilffyrdd (km)	0.1	0.1	1.3	0.0	0.0	0.2	0.1	0.1	0.1
Tir amaethyddol – graddau 1, 2 a 3 (hectarau)	65.2	78.2	114.5	9.4	12.6	22.1	37.5	41.8	44.8
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) (hectarau)	24.6	25.8	32.6	1.5	1.9	2.7	26.6	27.3	27.8
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Safleoedd Ramsar (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) (hectarau)	24.6	25.9	33.1	1.5	1.9	2.7	26.6	27.3	27.8
Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG) (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Gwarchodfeydd Natur Lleol (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Coetir hynafol (hectarau)	2.4	2.7	3.8	0.8	0.9	1.3	0.5	0.6	0.7
Parciau a gerddi cofrestredig (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.1	0.1	0.1	0.1	0.1	0.1
Parciau gwledig (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Henebion cofrestredig (hectarau)	0.0	0.0	0.2	0.1	0.1	0.2	0.4	0.5	0.5
Adeiladau rhestredig (nifer)	4	4	40	2	3	6	6	7	18
Parc Cenedlaethol (hectarau)	0.1	0.1	0.2	0.0	0.0	0.0	0.2	0.3	0.3
Ardaloedd cadwraeth (hectarau)	1.6	1.8	8.2	0.4	1.0	2.7	2.3	2.7	5.5
Carafannau (nifer)	0	3	13	0	0	0	0	0	0



Allwedd:

- Ffin Cyngor Sir Penfro
- Ardal gymunedol

Cyrsiau dŵr

- Prif afon Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cwrs dŵr cyffredin

Polisïau Cynllun Rheoli Traethlin

2020	2050	2100
Cynnal y Llinell	Cynnal y Llinell	Cynnal y Llinell
Adlinio a Reolir	Adlinio a Reolir	Adlinio a Reolir
Dim Ymyrraeth Weithredol	Dim Ymyrraeth Weithredol	Dim Ymyrraeth Weithredol

Llifogydd eiddo a gofnodwyd

- Heb fod yn llanw
- Llanw

Llifogydd eiddo a gofnodwyd o garthffosydd (yn ôl cod post)

- Yn weithredol
- Wedi'u datrys

Ffynonellau perygl llifogydd

Y môr	Prif afonydd	Dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach
Uchel	Uchel	Uchel
Canolig	Canolig	Canolig
Isel	Isel	Isel

Manylion y lluniad

Dyddiad	Mawrth 2024
Diwygiadau	001
Statws	Drafft
Lleoliad	Hwlffordd

Lluniwyd gan	Gwiriwyd gan	Cymeradwywyd gan
BS	CS	JG

Yn cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata (2024). Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl (2024).

STRATEGAETH LEOL AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD SIR BENFRO

2 CLEDDAU WEN

Ffynhonnell	Afon			Cyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb			Arfordirol		
Derbynnydd risg	Uchel	Canolig	Isel	Uchel	Canolig	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Eiddo preswyl mewn perygl o lifogydd	3	3	8	16	20	48	-	-	-
Gwasanaethau hanfodol (nifer)	1	1	1	1	2	3	-	-	-
Eiddo dibreswyl (nifer)	1	1	3	6	9	11	-	-	-
Prif ffyrdd / cefnffyrdd (km)	3.8	5.1	8.8	5.0	7.4	18.1	-	-	-
Prif reilffyrdd (km)	0.1	0.1	2.6	2.0	2.8	4.2	-	-	-
Tir amaethyddol – graddau 1, 2 a 3 (hectarau)	380.0	427.7	529.5	144.1	188.1	323.0	-	-	-
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) (hectarau)	204.5	224.3	255.5	8.6	11.2	17.3	-	-	-
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	-	-	-
Safleoedd Ramsar (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	-	-	-
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) (hectarau)	208.0	228.6	260.9	9.9	13.2	20.6	-	-	-
Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG) (hectarau)	14.9	18.7	24.4	0.6	1.0	2.1	-	-	-
Gwarchodfeydd Natur Lleol (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	-	-	-
Coetir hynafol (hectarau)	28.6	32.6	39.6	10.5	13.0	17.6	-	-	-
Parciau a gerddi cofrestredig (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.2	0.3	0.4	-	-	-
Parciau gwledig (hectarau)	1.1	1.1	1.1	1.1	1.1	1.1	-	-	-
Henebion cofrestredig (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.1	0.1	-	-	-
Adeiladau rhestredig (nifer)	10	10	12	0	1	1	-	-	-
Parc Cenedlaethol (hectarau)	11.7	14.2	18.3	2.6	3.7	7.6	-	-	-
Ardaloedd cadwraeth (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.1	-	-	-
Carafannau (nifer)	1	1	1	0	0	0	-	-	-



Allwedd:

Ffin Cyngor Sir Penfro

Ardal gymunedol

Cyrsiau dŵr

Prif afon Cyfoeth Naturiol Cymru

Cwrs dŵr cyffredin

Polisïau Cynllun Rheoli Traethlin

2020	2050	2100
Cynnal y Llinell	Cynnal y Llinell	Cynnal y Llinell
Adlinio a Reolir	Adlinio a Reolir	Adlinio a Reolir
Dim Ymyrraeth Weithredol	Dim Ymyrraeth Weithredol	Dim Ymyrraeth Weithredol

Llifogydd eiddo a gofnodwyd

Heb fod yn llanw

Llanw

Llifogydd eiddo a gofnodwyd o garthffosydd (yn ôl cod post)

Yn weithredol

Wedi'u datrys

Ffynonellau perygl llifogydd

Y môr	Prif afonydd	Dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach
Uchel	Uchel	Uchel
Canolig	Canolig	Canolig
Isel	Isel	Isel

Manylion y lluniad

Dyddiad	Mawrth 2024
Diwygiadau	001
Statws	Drafft
Lleoliad	Cleddau Wen

Lluniwyd gan	Gwiriwyd gan	Cymeradwywyd gan
BS	CS	JG

Yn cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata (2024). Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl (2024).

STRATEGAETH LEOL AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD SIR BENFRO

3 TYDDEWI A SOLFACH I ABERGWAUN

Ffynhonnell	Afon			Cyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb			Arfordirol		
Derbynnydd risg	**Uchel**	**Canolig**	**Isel**	**Uchel**	**Canolig**	**Isel**	**Uchel**	**Canolig**	**Isel**
Eiddo preswyl mewn perygl o lifogydd	19	24	30	20	25	66	0	0	0
Gwasanaethau hanfodol (nifer)	7	10	11	5	5	10	0	0	1
Eiddo dibreswyl (nifer)	17	21	23	18	25	34	0	1	2
Prif ffyrdd / cefnffyrdd (km)	2.4	3.0	4.2	3.1	5.1	11.3	0.1	0.1	0.1
Prif reilffyrdd (km)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Tir amaethyddol – graddau 1, 2 a 3 (hectarau)	144.0	170.0	212.5	100.5	134.8	241.0	96.8	98.7	99.9
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) (hectarau)	14.0	16.9	21.4	17.7	21.5	30.7	39.8	41.1	41.8
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) (hectarau)	0.2	0.3	0.3	1.3	1.6	2.4	21.8	22.7	23.2
Safleoedd Ramsar (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) (hectarau)	20.6	24.3	29.6	20.3	24.9	35.2	42.0	43.5	44.4
Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG) (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.3	0.4	0.5	3.3	3.5	3.6
Gwarchodfeydd Natur Lleol (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Coetir hynafol (hectarau)	0.5	0.6	0.6	0.4	0.6	1.0	0.0	0.0	0.0
Parciau a gerddi cofrestredig (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Parciau gwledig (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Henebion cofrestredig (hectarau)	1.0	1.1	1.4	0.1	0.2	0.4	2.0	2.1	2.1
Adeiladau rhestredig (nifer)	24	25	30	0	0	1	1	2	2
Parc Cenedlaethol (hectarau)	102.6	115.5	135.7	67.8	86.5	130.3	0.0	2.2	3.6
Ardaloedd cadwraeth (hectarau)	8.8	9.6	10.9	0.7	1.0	1.8	2.1	2.5	2.7
Carafannau (nifer)	6	6	7	0	0	0	0	0	0



Allwedd:

- Ffin Cyngor Sir Penfro
- Ardal gymunedol

Cyrsiau dŵr

- Prif afon Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cwrs dŵr cyffredin

Polisïau Cynllun Rheoli Traethlin

2020	2050	2100
Cynnal y Llinell	Cynnal y Llinell	Cynnal y Llinell
Adlinio a Reolir	Adlinio a Reolir	Adlinio a Reolir
Dim Ymyrraeth Weithredol	Dim Ymyrraeth Weithredol	Dim Ymyrraeth Weithredol

Llifogydd eiddo a gofnodwyd

- Heb fod yn llanw
- Llanw

Llifogydd eiddo a gofnodwyd o garthffosydd (yn ôl cod post)

- Yn weithredol
- Wedi'u datrys

Ffynonellau perygl llifogydd

Y môr	Prif afonydd	Dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach
Uchel	Uchel	Uchel
Canolig	Canolig	Canolig
Isel	Isel	Isel

Manylion y lluniad

Dyddiad	Mawrth 2024
Diwygiadau	001
Statws	Drafft
Lleoliad	Tyddewi a Solfach i Abergwaun

Lluniwyd gan	Gwiriwyd gan	Cymeradwywyd gan
BS	CS	JG

Yn cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata (2024). Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl (2024).

STRATEGAETH LEOL AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD SIR BENFRO

4 NIWGWL I ABER-BACH

Ffynhonnell	Afon			Cyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb			Arfordirol		
Derbynnydd risg	Uchel	Canolig	Isel	Uchel	Canolig	Isel	Uchel	Canolig	Isel
Eiddo preswyl mewn perygl o lifogydd	1	1	1	32	35	45	0	0	0
Gwasanaethau hanfodol (nifer)	0	1	1	19	25	29	0	0	0
Eiddo dibreswyl (nifer)	2	3	3	19	25	29	0	0	0
Prif ffyrdd / cefnffyrdd (km)	1.3	1.5	1.8	1.9	2.7	6.2	0.0	0.1	0.2
Prif reilffyrdd (km)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Tir amaethyddol – graddau 1, 2 a 3 (hectarau)	67.0	72.9	80.3	49.9	53.1	54.9	41.2	54.2	94.2
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) (hectarau)	0.1	0.1	0.2	1.4	1.6	2.1	10.5	10.9	11.2
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.1	0.2	0.4	1.2	1.2	1.2
Safleoedd Ramsar (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) (hectarau)	0.1	0.1	0.2	1.4	1.7	2.2	11.3	11.8	12.1
Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG) (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Gwarchodfeydd Natur Lleol (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Coetir hynafol (hectarau)	0.8	0.9	1.1	2.0	2.2	2.9	0.2	0.2	0.2
Parciau a gerddi cofrestredig (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Parciau gwledig (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Henebion cofrestredig (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Adeiladau rhestredig (nifer)	0	0	0	1	1	1	0	0	0
Parc Cenedlaethol (hectarau)	76.3	82.2	89.6	38.7	48.6	67.6	21.2	24.4	26.3
Ardaloedd cadwraeth (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.6	0.8	0.8	0.2	0.2	0.3
Carafannau (nifer)	17	18	19	13	18	27	0	0	0



Allwedd:

Ffin Cyngor Sir Penfro

Ardal gymunedol

Cyrsiau dŵr

Prif afon Cyfoeth Naturiol Cymru

Cwrs dŵr cyffredin

Polisïau Cynllun Rheoli Traethlin

2020	2050	2100
Cynnal y Llinell	Cynnal y Llinell	Cynnal y Llinell
Adlinio a Reolir	Adlinio a Reolir	Adlinio a Reolir
Dim Ymyrraeth Weithredol	Dim Ymyrraeth Weithredol	Dim Ymyrraeth Weithredol

Llifogydd eiddo a gofnodwyd

Heb fod yn llanw

Llanw

Llifogydd eiddo a gofnodwyd o garthffosydd (yn ôl cod post)

Yn weithredol

Wedi'u datrys

Ffynonellau perygl llifogydd

Y môr	Prif afonydd	Dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach
Uchel	Uchel	Uchel
Canolig	Canolig	Canolig
Isel	Isel	Isel

Manylion y lluniad

Dyddiad	Mawrth 2024
Diwygiadau	001
Statws	Drafft
Lleoliad	Niwgwl i Aber-bach

Lluniwyd gan	Gwiriwyd gan	Cymeradwywyd gan
BS	CS	JG

Yn cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata (2024). Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl (2024).

STRATEGAETH LEOL AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD SIR BENFRO

5 LLANISAN-YN-RHOS

Ffynhonnell	Afon			Cyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb			Arfordirol		
Derbynnydd risg	**Uchel**	**Canolig**	**Isel**	**Uchel**	**Canolig**	**Isel**	**Uchel**	**Canolig**	**Isel**
Eiddo preswyl mewn perygl o lifogydd	0	0	2	22	28	91	2	8	12
Gwasanaethau hanfodol (nifer)	1	1	2	3	3	8	1	1	2
Eiddo dibreswyl (nifer)	1	1	2	6	6	18	2	3	4
Prif ffyrdd / cefnffyrdd (km)	0.9	1.1	1.6	2.5	3.7	8.7	1.5	2.1	2.6
Prif reilffyrdd (km)	0.0	0.0	0.0	0.4	0.5	1.3	0.0	0.0	0.0
Tir amaethyddol – graddau 1, 2 a 3 (hectarau)	51.4	61.0	78.7	79.5	100.9	166.9	195.9	204.8	212.6
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) (hectarau)	6.5	10.6	18.2	8.1	8.4	9.8	114.3	117.4	119.9
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) (hectarau)	0.0	0.0	0.0	1.2	1.3	1.8	6.2	6.5	6.7
Safleoedd Ramsar (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) (hectarau)	6.5	10.7	18.7	11.8	12.4	14.7	116.5	119.7	122.2
Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG) (hectarau)	0.0	0.0	0.0	1.2	1.3	1.8	5.7	5.9	6.1
Gwarchodfeydd Natur Lleol (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Coetir hynafol (hectarau)	3.0	3.2	4.4	5.5	7.2	10.4	3.9	4.3	4.6
Parciau a gerddi cofrestredig (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.7	0.9	1.4	0.0	0.0	0.1
Parciau gwledig (hectarau)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Henebion cofrestredig (hectarau)	0.0	0.0	0.0	1.1	1.6	2.2	0.4	0.4	0.5
Adeiladau rhestredig (nifer)	2	2	2	0	0	0	1	2	5
